



Rhif ymchwil gymdeithasol: 49/2026

Dyddiad cyhoeddi: 18/03/2026

Safbwyntiau a phrofiadau teuluoedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru: Astudiaeth ansoddol ar ddefnydd gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-336-8

Safbwyntiau a phrofiadau teuluoedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru: Astudiaeth ansoddol ar ddefnydd gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae

Awduron: Buddug Hughes, Gwennan Higham, Zaina Aljumma, Joseff Gnagbo, Jaqueline Hooban

Adroddiad Ymchwil Llawn: Hughes, B., Higham, G., Aljumma, Z., Gnagbo, J. a Hooban, J. (2026). Safbwyntiau a phrofiadau teuluoedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru: Astudiaeth ansoddol ar ddefnydd gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 49/2026.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/profiadau-o-ofal-plant-ar-gyfer-teuluoedd-du-asiaidd-ac-ethnig-leiafrifol>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Ymchwil Plant a Theuluoedd

Adran Tystiolaeth a Chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Research.ChildrenAndFamilies@llyw.cymru

Tabl Cynnwys

Safbwyntiau a phrofiadau teuluoedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru:

Astudiaeth ansoddol ar ddefnydd gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae ... 1

Geirfa	4
1. Cyflwyniad a chefnidir	7
1.1 Cyd-destun ymchwil	8
1.2 Nodau ac amcanion yr ymchwil	10
1.3 Strwythur yr adroddiad	10
2. Methodoleg	11
2.1 Cwestiynau ymchwil	11
2.2 Y tîm ymchwil	11
2.3 Dulliau ymchwil	12
2.4 Cyfranogiad mentoriaid cymunedol Llywodraeth Cymru	12
2.5 Gweithdy ar-lein	12
2.6 Ffrâm samplu	12
2.7 Recriwtio rhieni a gofalwyr	13
2.8 Y cyfranogwyr	14
2.9 Heriau wrth recriwtio cyfranogwyr ymchwil	15
2.10 Materion moesegol a blaenoriaethu lles cyfranogwyr	16
2.11 Casglu data	16
2.12 Ardaloedd ymchwil	17
2.13 Ansawdd data	18
2.14 Offer ymchwil	18
2.15 Dadansoddi data	18
3. Canfyddiadau	19
3.1 Bywyd Teuluol, cefndir, ac atgofion rhieni o ofal plant	19
3.2 Mynediad - prosesau ymgeisio a rhwystrau i gael mynediad at ddefnyddio gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae ffurfiol	22
3.3 Defnydd - profiadau wrth ddefnyddio gofal plant	27
3.4 Iaith	31
3.5 Manteision gofal plant a gwaith chwarae	33
4. Casgliadau	35
5. Argymhellion	39

Cyfeirnodau41

Atodiad A.....43

Rhestr o dablau

Tabl 1: Nodweddion allweddol y teuluoedd sy'n cymryd rhan15

Tabl 2: Proffil ethnig lleoliadau sampl17

Geirfa

ADY

Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo neu ganddi anhawster dysgu neu anabledd (boed yr anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Arolygiaeth Gofal Cymru

AGC yw'r sefydliad sy'n cofrestru, yn archwilio ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal plant.

Blynyddoedd cynnar

Diffinnir y blynyddoedd cynnar gan Lywodraeth Cymru fel y cyfnod ym mywyd plentyn o 0 i 7 oed.

Ceisiwr Lloches

Person sydd wedi gadael ei wlad wreiddiol ac wedi gwneud cais ffurfiol am loches mewn gwlad arall, ond nad yw ei gais wedi'i gwblhau eto.

ChDGPC

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar yn ddull integredig o addysg a gofal plant i blant 0-5 oed, gan ganolbwyntio ar ddatblygiad cyfannol i gefnogi lles a dysgu gydol oes, gan gyd-fynd â Chwricwlwm Cymru. Er bod y term GAPC (Gofal a Addysg Plentynod Cynnar) hefyd yn cael ei gydnabod, nid yw'n cael ei ddefnyddio mor eang â ChDGPC yng Nghymru.

Chwarae

Mae chwarae yn ymddygiad, gweithgaredd neu broses a gychwynnir, a reolir a strwythurir gan blant, fel rhywbeth nad yw'n orfodol, a yrrir gan gymhelliant mewnol, nid yn fodd i gyflawni diben ac sydd â nodweddion allweddol o hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd ac anghynhyrchiol.

Chwarae Cymru

Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer chwarae plant yng Nghymru.

CPCC

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn sefydliad ymchwil sy'n gweithio i fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol yng Nghymru.

Cwlwm

Mae Cwlwm yn gonsortiw o 5 partner Gofal Plant a Chwarae. Mae eu ffocws ar ddarparu gwasanaeth integredig dwyieithog sy'n darparu canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd ledled Cymru. I gael gwybod mwy am Cwlwm ewch i [Cwlwm](#).

Cynnig Gofal Plant i Gymru

Mae Cynnig Gofal Plant i Gymru yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio a rhieni mewn addysg a hyfforddiant, plant 3 a 4 oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. I gael gwybod mwy am Gynnig Gofal Plant i Gymru ewch i Gynnig Gofal Plant i Gymru.

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP)

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Cymru wrth-hiliol Cymru (ArWAP) mewn ymateb i'r gydnabyddiaeth gynyddol o'r angen i fynd i'r afael â hiliaeth systemig a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yng Nghymru. Mae'r cynllun wedi'i gyd-gynhyrchu a'i nod yw creu cymdeithas fwy cynhwysol a thecach trwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldebau hiliol a sicrhau bod gan bob unigolyn, beth bynnag fo'u hil neu eu hethnigrwydd, gyfleoedd cyfartal i lwyddo.

Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi teuluoedd â phlant ifanc gyda'r nod o roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig. Mae'r rhaglen yn darparu gofal plant rhan-amser wedi'i ariannu ar gyfer plant 2 i 3 oed, ynghyd â chymorth ychwanegol i deuluoedd mewn rhai ardaloedd o Gymru ac mae'n cael ei ehangu i bob ardal o Gymru

Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL)

Menter gan Lywodraeth Cymru yw DARPL a gynlluniwyd i ymgorffori arfer gwrth-hiliol ar draws sectorau addysg, gofal plant a chwarae yng Nghymru. Maent yn darparu adnoddau dysgu proffesiynol, canllawiau a hyfforddiant i gefnogi addysgwyr ac arweinwyr wrth weithredu'r cwrwllwm a hyrwyddo egwyddorion gwrth-hiliol.

Ethnigrwydd

Hunaniaeth ddiwylliannol hunan-adnabod yn seiliedig ar dreftadaeth, llinach, iaith, crefydd neu draddodiadau diwylliannol a rennir, ac sy'n wahanol i hil.

Ffoadur

Person y tu allan i'w wlad, sydd ag ofn erledigaeth oherwydd ei hil, ei grefydd, ei genedligrwydd, ei aelodaeth o grŵp cymdeithasol penodol neu ei farn wleidyddol. Nid ydynt yn gallu neu'n amharod i ddychwelyd yno, oherwydd ofn erledigaeth.

Home Start

Gwasanaeth cymunedol gwirfoddol sy'n darparu gwirfoddolwyr hyfforddedig a chymorth arbenigol i deuluoedd ag o leiaf un plentyn ifanc. Mae Home Start yn cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol yn ystod cyfnodau heriol, gan weithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd yn eu cartrefi a chymunedau lleol ledled y DU. Mae cymorth wedi'i deilwra i anghenion unigol pob teulu.

Hybiau Teuluol

Darperir gwasanaethau hyb gan rai awdurdodau lleol trwy adeiladau cyhoeddus fel llyfrgelloedd. Maent yn darparu cyngor ar amrywiol faterion fel tai, dysgu oedolion a chyngor ariannol.

Gofal Plant

Gofal am blentyn gan ofalwr heblaw aelod agos o'r teulu am fwy na dwy awr y dydd am dâl.

Gwaith Chwarae

Mae gwaith chwarae yn ffordd o weithio gyda phlant lle mae'r prif ffocws ar gefnogi chwarae plant, yn hytrach nag addysg neu ofal.

IPPO

Mae IPPO yn Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol, sy'n anelu at gasglu ac asesu tystiolaeth o bob cenedl yn y Deyrnas Unedig, a thu hwnt, i hysbysu llunwyr polisi am y ffyrdd gorau o fynd i'r afael â niwed cymdeithasol.

Lleoliad Gofal Plant Cofrestredig

Lleoliad sydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal plant i blant 0 i 12 oed.

Lleoliad

Mae lleoliadau gofal plant yn cynnwys meithrinfeydd dydd, gwarchodwyr plant cofrestredig, grwpiau chwarae cyn-ysgol, Cylch Meithrin, clybiau gofal plant y tu allan i'r ysgol. Mae lleoliadau addysg ffurfiol yn cyfeirio at ysgolion sy'n darparu Dysgu Sylfaen.

Mentoriaid Cymunedol Llywodraeth Cymru

Unigolion sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru sy'n dod o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol sydd â gwybodaeth neu brofiad byw o effaith hiliaeth o fewn gofal plant, gwaith chwarae a'r blynyddoedd cynnar. Mae mentoriaid cymunedol yn rhannu eu profiad byw gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac yn darparu mewnbwn, arbenigedd a chyngor annibynnol i gefnogi grŵp Llywodraethu Gofal Plant a Chwarae Gwrth-hiliol Cymru, is-grwpiau a rhanddeiliaid allweddol.

Mudiad Meithrin

Mae Mudiad Meithrin yn sefydliad blynyddoedd cynnar Cymreig. Mae'n canolbwyntio ar **ddarparu** gofal plant a grwpiau chwarae cyfrwng Cymraeg.

Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol

Pob grŵp ethnig ac eithrio Prydeinig Gwyn, gan gynnwys grwpiau lleiafrifol Gwyn fel Sipsiwn Romani, Teithwyr Gwyddelig, pobl Roma neu Iddewig, a rhieni a phlant o dreftadaeth gymysg.

1. Cyflwyniad a chefnidir

Comisiynodd Llywodraeth Cymru IAITH i gynnal ymchwil ansoddol ar safbwyntiau a phrofiadau teuluoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru ar ddefnydd gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil ansoddol a gynhaliwyd mewn cydweithrediad ag 20 o rieni o deuluoedd ethnig leiafrifol sydd â phlant 0 i 8 oed, ac yn byw mewn un o dair ardal awdurdod lleol yng Nghymru, Caerdydd, Gwynedd a Rhondda Cynon Taf (RhCT).

Mae [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol \(ArWAP\)](#) Llywodraeth Cymru yn nodi'r weledigaeth i Gymru fod yn wlad gwrth-hiliol. Ei nod yw hyrwyddo cydweithio i wneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol. Datblygwyd ArWAP mewn cydweithrediad ag ystod eang o gymunedau a sefydliadau ar draws pob rhan o Gymru. Mae'r nodau a'r camau gweithredu wedi'u llunio ar y cyd â phobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol ac mae 'gwerthfawrogi profiad byw' yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'r cynllun.

Mae ArWAP yn cynnwys pennod annibynnol a deg cam gweithredu sy'n tynnu sylw at ofal plant a chwarae fel meysydd hanfodol ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb, sicrhau mynediad, a gwreiddio arferion gwrth-hiliol ar draws darpariaeth blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Cydnabyddir bod Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ChDGPC) yn hanfodol ar gyfer datblygiad plant, dysgu gydol oes, ac integreiddio cymdeithasol. Nododd Llywodraeth Cymru fod nifer isel o deuluoedd ethnig leiafrifol yn derbyn gofal plant fel mater blaenoriaeth. Mae ArWAP yn nodi nodau a chamau gweithredu penodol ar gyfer y sectorau gofal plant a gwaith chwarae, gan ganolbwyntio ar gynhwysiant a chynrychiolaeth.

Mae pennod Gofal Plant a Chwarae o'r ArWAP (2024) yn ailadrodd bod anghydraddoldebau parhaus yng nghyrhaeddiad y blynyddoedd cynnar ymhlith grwpiau ethnig leiafrifol a bod rhieni o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn wynebu rhwystrau diwylliannol ac addysgol wrth gael mynediad at ofal plant. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgorffori gwrth-hilioldeb ar draws gofal plant a chwarae trwy dystiolaeth, dysgu proffesiynol, ac ymgysylltu cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â DARPL, Cwlwm a Mentoriaid Cymunedol i adeiladu amgylcheddau diogel a chynhwysol a gweithio mewn cynghreiriau gyda rhieni a gofawyr ethnig leiafrifol i nodi a dileu rhwystrau. Mae'r cynllun wedi'i adnewyddu yn miniogi camau gweithredu ar gyfer mesuradwyedd, gan ganolbwyntio ar arweinyddiaeth, amrywiaeth y gweithlu, darpariaeth sy'n sensitif i ddiwylliant, a phrofiadau plant. Mae'r camau gweithredu gwrth-hiliol hyn yn gweithredu ochr yn ochr â chanllawiau ehangach ar gyfer gwasanaethau gofal plant yng Nghymru, sy'n llunio profiadau bob dydd plant a theuluoedd.

Mae teuluoedd yng Nghymru yn elwa o ystod o hawliau blynyddoedd cynnar sy'n cael eu hariannu. Mae gan bob plentyn 3 i 4 oed hawl i o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg gynnar trwy eu hawdurdod lleol. Mae'r [Cynnig Gofal Plant](#) yn darparu hyd at 20 awr ychwanegol o ofal plant wedi'i ariannu yr wythnos i rieni cymwys plant 3 i 4 oed (hyd at uchafswm o 30 awr yr wythnos), sydd ar gael am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae elfen gofal plant Dechrau'n Deg, y rhaglen blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 0 i 4 oed sy'n byw mewn

ardaloedd difreintiedig, yn cael ei hehangu ar hyn o bryd trwy ddull graddol i ddarparu 12.5 awr yr wythnos o ofal plant am 39 wythnos y flwyddyn i bob plentyn 2 oed yng Nghymru.

1.1 Cyd-destun ymchwil

Awgrymodd tystiolaeth o astudiaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2018 fod cyrhaeddiad y blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn parhau i fod yn wahanol i blant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Yn benodol, roedd cyrhaeddiad disgyblion Duon yn is na chyrhaeddiad disgyblion Gwyn Prydeinig yn ystod addysg y blynyddoedd cynnar. Ar ben hynny, mae'r adroddiad yn nodi bod darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar yn parhau i fod yn waith sydd ar y gweill o ran mynediad a chanlyniadau i blant a theuluoedd ethnig lleiafrifol, a disgyblion Duon yn benodol (EHRC, 2018).

Cyhoeddwyd astudiaeth ansoddol o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy'n effeithio ar benderfyniadau rhieni ynghylch gofal plant ac addysg gynnar, a gynhaliwyd gan IAITH, gan Lywodraeth Cymru (2022). Roedd yr astudiaeth yn cwmpasu naw ardal o Gymru ac yn cynnwys saith rhiant o gymunedau ethnig lleiafrifol. Canfu'r ymchwil fod mwyafrif y teuluoedd o gymunedau ethnig lleiafrifol yn defnyddio darpariaeth gofal plant, hyd yn oed os nad oeddent yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Roedd rhai o'r rhesymau a roddwyd mewn perthynas â chael mynediad at ddarpariaeth gofal plant ac addysg gynnar yn brofiadau addysgol cyferbyniol neu debyg o'i gymharu â'u gwlad gartref, gan geisio atgynhyrchu elfennau o'u magwraeth eu hunain a chynnal arferion diwylliannol ac ieithyddol wrth reoli'r gwahanol normau a'r ymddygiadau cymdeithasol a ddisgwylir mewn darpariaeth gofal plant a dysgu sylfaen yng Nghymru.

Mae [Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar yng Nghymru \(2024\)](#) yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn 0 i 5 oed, gyda phwyslais cryf ar chwarae, dysgu dwyieithog, cynhwysiant, a chefnogaeth i deuluoedd ac ymarferwyr. Er mwyn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn tyfu, yn dysgu ac yn chwarae mewn amgylcheddau diogel, iach a chynhwysol. Mae gan bob plentyn yr hawl i ffynnu, gyda chefnogaeth gweithlu gwerthfawr ac amrywiol, ac mae'r cynllun hwn yn ymrwymiad i lunio Cymru fel cenedl lle mae pob plentyn yn cael ei feithrin, ei werthfawrogi, a chael cyfleoedd cyfartal. Drwy ymgorffori chwarae a gofal mewn dysgu cynnar, mae Cymru yn anelu at greu dysgwyr gwydn a hyderus sy'n cario'r sylfeini hyn i'w haddysg a'u dysgu gydol oes yn y dyfodol. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau digonolrwydd gofal plant. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt asesu anghenion lleol, adolygu'n rheolaidd a oes gan deuluoedd fynediad at ddarpariaeth gofal plant ddigonol, a darparu gofal plant cynhwysol sy'n diwallu anghenion plant ag anableddau a'r rhai o gefndiroedd amrywiol.

Mae adroddiad IPPO '[Cynyddu Mynediad at Ofal Plant ar gyfer Cymunedau Ethnig Lleiafrifol a Chymunedau Difreintiedig](#)' (Mendizabal-Espinosa et al., 2024) yn tynnu sylw at sut mae addysg a gofal plentynod cynnar (AGPC) yn hanfodol ar gyfer lleihau anghydraddoldebau, ond mae llawer o deuluoedd yn wynebu rhwystrau i fynediad. Mae'n galw am fynd i'r afael â rhwystrau ariannol, diwylliannol a strwythurol i sicrhau darpariaeth gofal plant deg, yn enwedig ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol a grwpiau difreintiedig.

Mae mynediad at addysg gynnar a gofal plant o safon yn rhan o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (NDC 4.2), gyda'r nod o sicrhau bod pob plentyn, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, yn elwa o addysg cyn-gynradd erbyn 2030. Mae

mentrau fel fframwaith Datblygu Plentyndod Cynnar y G20 yn pwysleisio ehangu mynediad i gymunedau difreintiedig.

Mae prif themâu adroddiad UNICEF, [Out of Sight, Out of Mind](#) (2023), yn canolbwyntio ar yr anawsterau cudd sy'n wynebu plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn Lloegr, yn enwedig o ran mynediad at addysg gynnar, gofal ac anghenion sylfaenol. Mae teuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn wynebu rhwystrau sylweddol wrth gael mynediad at feithrinfeydd, cyn-ysgolion, a lleoliadau ChDGPC eraill. Mae'r rhain yn cynnwys rhwystrau biwrocrataidd, diffyg ymwybyddiaeth, ac allgau systemig. Mae llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd darparu cyfleoedd dysgu digonol gartref oherwydd adnoddau cyfyngedig, rhwystrau iaith, ac amodau byw ansefydlog. Mae teuluoedd yn byw mewn cartrefi ansicr, yn wynebu tlodi, ac yn profi trawma, ac mae'r rhain i gyd yn gwaethygu'r anawsterau o fagu plant ifanc mewn amgylcheddau diogel a meithringar. Pan fydd addysg gynnar yn hygyrch, yn cael ei llywio gan drawma, ac yn sensitif i ddiwylliant, gall wella canlyniadau'n sylweddol i blant ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'u rhieni, gan gynnig sefydlogrwydd a gobaith. Nododd yr adroddiad fod yr heriau y mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn eu hwynebu yn cynnwys anawsterau ariannol sylweddol wrth geisio darparu ar gyfer eu plant, gan gynnwys costau teithio a mynediad at fannau chwarae dan do. Yn aml, mae menywod sy'n ceisio lloches yn cael eu hynysu'n gymdeithasol oherwydd eu cyfrifoldebau gofal plant, gan eu hatal rhag gwella eu sgiliau iaith a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Yn ogystal, mae rhieni'n pryderu am ddatblygiad eu plant oherwydd diffyg mynediad at feithrinfeydd a gofal plant priodol.

Rhwng Tachwedd 2023 a Hydref 2024, gweithiodd yr Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol (IPPO) a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPPC) mewn partneriaeth i roi tystiolaeth i Lywodraeth Cymru i lywio ymchwil a phenderfyniadau polisi pellach ar gefnogi plant a theuluoedd ethnig leiafrifol yng Nghymru (Palá et al., 2024). Daethant i'r casgliad nad yw'r dystiolaeth a'r data presennol ar y nifer sy'n cymryd rhan, safbwyntiau a phrofiadau teuluoedd ethnig leiafrifol yn y DU yn ddigonol i lywio camau polisi cadarn a monitro effeithiolrwydd ymyriadau. Yn ogystal, roedd eu canfyddiadau cyffredinol yn cynnwys:

- gall hawliau a rhaglenni a ariennir gan y llywodraeth gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan ond mae angen eu teilwra i anghenion y boblogaeth darged
- dim ond rhan o'r ateb yw cael gwared ar rwystrau ariannol, mae angen mynd i'r afael â rhwystrau diwylliannol hefyd. Mae pryderon ynghylch ansawdd, sensitifrwydd diwylliannol, ac addasrwydd i wahanol anghenion plant a theuluoedd ethnig leiafrifol hefyd yn chwarae rolau pwysig
- gall diffyg cynrychiolaeth ethnig leiafrifol yn y sector effeithio ar y nifer sy'n cael eu derbyn
- mae amrywiaeth staff gofal plant a gwaith chwarae ac arfer cynhwysol ac amrywiol (e.e. gan gynnwys cyfyngiadau dietegol, arferion crefyddol, a thrwy gynrychiolaeth arferion diwylliannol mewn llyfrau, gweithgareddau a dathliadau) yn ffactorau pwysig sy'n effeithio ar y nifer sy'n cael eu derbyn

- mae perthnasoedd cymunedol sefydledig yn hanfodol ar gyfer cefnogi teuluoedd ethnig leiafrifol i gael mynediad at ChDGPC. Gall cymunedau fod yn alluogwyr allweddol ar gyfer codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am ChDGPC a sefydlu gwasanaethau ar gyfer lleoliadau allgymorth a/neu leoliadau hygrych, sy'n cefnogi teuluoedd i gofrestru, cynnal presenoldeb, a gwella arfer ChDGPC

Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r gwaith a wnaed gan IPPO a CPPC, bwriad yr ymchwil hon oedd cynyddu dealltwriaeth o safbwyntiau a phrofiadau teuluoedd ethnig leiafrifol yng Nghymru o ran cael mynediad at ChDGPC. Drwy nodi'r ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac ymarferol sy'n effeithio ar y nifer sy'n cael ChDGPC, y bwriad oedd i'r ymchwil hon gynyddu'r sail dystiolaeth ynghylch anghenion teuluoedd ethnig leiafrifol, gan helpu i lywio datblygiad polisïau ac ymyriadau cynhwysol yn y sector yn y dyfodol.

1.2 Nodau ac amcanion yr ymchwil

Nod yr astudiaeth hon oedd deall sut mae profiadau bywyd, dylanwadau diwylliannol a dewisiadau teuluol yn llunio'r defnydd o wasanaethau chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar (ChDGPC), gan nodi'r rhwystrau allweddol y mae teuluoedd yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i opsiynau addas, deall a gwneud cais am hawliau, a defnyddio gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r heriau y mae teuluoedd yn eu hwynebu wrth gael mynediad at ddarpariaeth, a'r ffactorau sy'n annog y nifer sy'n cael y gwasanaethau hyn, gyda sylw arbennig i sut mae'r deinameg hon yn effeithio ar deuluoedd ethnig leiafrifol. O ystyried maint bychan yr astudiaeth hon, a'r amser cyfyngedig a dreulwyd gyda theuluoedd, dim ond cipolwg dangosol y mae'r canfyddiadau'n ei roi.

1.3 Strwythur yr adroddiad

Mae strwythur gweddill yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- methodoleg – mae'r adran hon yn nodi'r nodau a'r amcanion, ac yn amlinellu'r dull methodolegol a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae'n myfyrio ar gyfyngiadau'r astudiaeth, yr heriau a'r addasiadau a wnaed i'r dull ymchwil
- canfyddiadau – mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r data ansoddol a gasglwyd yn yr astudiaeth hon. Mae'r adran yn cynnwys tystiolaeth gan rieni a gymerodd ran yn yr astudiaeth
- casgliadau – mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o brif ganfyddiadau a chasgliadau'r astudiaeth
- argymhellion – mae'r adran hon yn cyflwyno argymhellion yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil.

2. Methodoleg

Mae'r adran hon yn nodi amcanion yr ymchwil, ac yn amlinellu'r fethodoleg a gymerwyd. Cododd nifer o heriau yn ystod casglu data, fel yr eglurir isod.

Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r gwaith a wnaed gan IPPC, bwriad yr ymchwil hon oedd cynyddu dealltwriaeth o safbwyntiau a phrofiadau teuluoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru o ran cael mynediad at Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ChDGPC). Drwy nodi'r ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac ymarferol sy'n effeithio ar y nifer sy'n derbyn ChDGPC, y bwriad oedd y byddai'r ymchwil hon yn cynyddu'r sail dystiolaeth ynghylch anghenion teuluoedd ethnig leiafrifol, gan helpu i lywio datblygiad polisïau ac ymyriadau cynhwysol yn y sector yn y dyfodol.

2.1 Cwestiynau ymchwil

Amcanion yr ymchwil yr oedd yr astudiaeth hon yn ceisio eu harchwilio oedd:

- cynyddu dealltwriaeth o sut mae profiadau bywyd, ffactorau diwylliannol, anghenion a dewisiadau teuluoedd unigol yn effeithio ar ddefnydd ChDGPC
- dadansoddi patrymau anghenion a phwyntiau poen i deuluoedd, gan ystyried y camau sy'n gysylltiedig â manteisio ar wasanaeth gofal plant neu waith chwarae, er enghraifft: dod o hyd i wasanaeth addas, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau, gwneud cais am leoedd a defnyddio'r gwasanaethau
- cynyddu dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar wahanol fathau o deuluoedd gan wasanaethau ChDGPC, pa broblemau y maent yn eu hwynebu wrth eu cyrchu, a beth fyddai'n annog manteisio ar wasanaethau
- cynyddu dealltwriaeth o sut mae'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar batrymau defnydd cyfredol ChDGPC ymhlith teuluoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

2.2 Y tîm ymchwil

Roedd tîm ymchwil y prosiect hwn yn cynnwys tri ymchwilydd cymunedol lleol, dau ymgynghorydd allanol o gefndir gofal plant proffesiynol, a thri o ymchwilwyr swyddfa IAITH. Ymgynghorwyd hefyd â rheolwyr Mudiad Meithrin a cheisiwyd cyngor ganddynt.

Roedd y tîm ymchwil yn cynnwys aelodau oedd yn ddynion a menywod ac o gefndiroedd ethnig leiafrifol a Gwyn Prydeinig. Roedd y tri ymchwilydd cymunedol o gefndiroedd ethnig leiafrifol; dau ohonynt yn fyfyrwyr prifysgol ôl-raddedig ac roedd gan un brofiad proffesiynol o weithio ym maes gofal plant. Daeth y tîm ag ymchwilwyr lleol, a oedd â mynediad at rwydweithiau cymdeithasol rhieni a gofalwyr ethnig leiafrifol gyda phlant ifanc ynghyd â staff ymchwil IAITH. Roedd eu harbenigedd hwy mewn dulliau ansoddol ac addysg a gofal plentyndod cynnar yn cryfhau'r prosiect.

Mae manteision cydnabyddedig i ffurfio tîm ymchwil sy'n cyfuno safbwyntiau 'mewnol' ac 'allanol' (Copland a Creese, 2015). Mae'r manteision hyn yn cynnwys tynnu ar ddealltwriaeth fanwl 'mewnol' o gymuned leol, cael ymddiriedaeth fel 'lleol' gyda gwybodaeth a chysylltiadau cymunedol a rennir a chael dealltwriaeth gyffredin o brofiadau cyfranogwyr yr ymchwil. Gall cyfuno hyn â'r safbwynt 'allanol' ddod â gwrthrychedd

ychwanegol i'r astudiaeth a galluogi'r tîm i gwestiynu rhagdybiaethau y gallai 'mewnol' eu cymryd fel rhai rhodd.

2.3 Dulliau ymchwil

Ceisiodd y prosiect fabwysiadu methodoleg fyfyrion, gynhwysol a moesegol. Roedd y dull yn cydnabod rôl yr ymchwilydd a'r cyfranogwyr fel partneriaid cydweithredol yn y broses ymchwil (Kemmis et al., 2014), gan sicrhau bod unrhyw ragfarn neu ddylanwad posibl yn destun myfyrion parhaus. Er mwyn sicrhau dull cynhwysol, chwaraeodd ymchwilydd cymunedol IAITH sy'n aelodau o gymunedau ethnig lleiafrifol, rôl ganolog yn yr astudiaeth. Sicrhodd y dull hwn fod y broses ymchwil yn meithrin ymddiriedaeth rhwng y cyfranogwyr a'r ymchwilydd. Cynigiodd yr ymchwilydd fewnwelediadau i'r ffyrdd gorau o gysylltu ag aelodau'r gymuned a hwyluso sgysiau ystyrlon, gan leihau rhwystrau sy'n gysylltiedig â diffyg ymddiriedaeth neu iaith. Roedd y dull hwn hefyd yn cydnabod gwerth gwybodaeth fewnol wrth gynnal ymchwil ystyrlon a pherthnasol i'r cymunedau dan sylw.

Roedd dull moesegol yn ganolog i'r prosiect, gan sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei chynnal mewn ffordd sy'n blaenoriaethu cyfrinachedd, urddas a lles pob unigolyn dan sylw. Defnyddiwyd dulliau hygyrch i sicrhau caniatâd, gan gynnwys: egluro prosesau ymchwil yn glir mewn ieithoedd perthnasol, a darparu cyfleoedd i gyfranogwyr ofyn cwestiynau neu dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Ar draws y tîm ymchwil, siaredir wyth iaith wahanol, sef Arabeg, Saesneg, Farsi, Ffrangeg, Eidaleg, Rwsieg, Kiswahili a Chymraeg. Yn ymarferol, cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau yn Saesneg, ac eithrio un cyfweiliad a gynhaliwyd yn Arabeg (cynhaliwyd y cyfweiliad gan un o'r ymchwilydd cymunedol). Roedd ymrwymiad i ddiogelu a pharchu data personol drwy gydol y broses.

2.4 Cyfranogiad mentoriaid cymunedol Llywodraeth Cymru

Ceiswyd cyngor a mewnwlediadau ar recriwtio cyfranogwyr gan fentoriaid cymunedol Llywodraeth Cymru hefyd. Cymerodd mentoriaid cymunedol ran yn y gweithdy ar-lein. Rhannasent wybodaeth am grwpiau cymunedol y gellid cysylltu â nhw am gymorth gyda recriwtio cyfranogwyr a chynghori ar sensitifrwydd diwylliannol y dylai'r tîm ymchwil eu hystyried wrth geisio recriwtio cyfranogwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol gwahanol.

2.5 Gweithdy ar-lein

Cynhaliwyd gweithdy ar-lein gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, mentoriaid cymunedol, a rhanddeiliaid ar ddechrau'r prosiect. Drwy rannu eu profiad bywyd, mae mentoriaid cymunedol yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i gynnig cyngor, arbenigedd a mewnwleidiad annibynnol sy'n cefnogi grŵp Llywodraethu Gofal Plant a Chwarae Gwrth-hiliol Cymru. Nod y gweithdy oedd casglu cyngor a gwybodaeth am agweddau ar fethodoleg y prosiect. Yn ystod y trafodaethau gyda swyddogion, mentoriaid a rhanddeiliaid, trafodwyd syniadau cyswllt cychwynnol ar gyfer recriwtio cyfranogwyr, fframwaith sampl, ac offer ymchwil cychwynnol ar gyfer recriwtio cyfranogwyr.

2.6 Ffrâm samplu

Yn dilyn y gweithdy, datblygwyd ffrâm samplu lawnach i sicrhau ystod o nodweddion mewn teuluoedd a gymerodd ran. Nod y ffrâm samplu oedd cynnwys cyfranogwyr â chyfuniad o rai o'r priodoleddau canlynol:

- rhieni sy'n cael mynediad at ofal plant neu waith chwarae
- rhieni nad ydynt yn cael mynediad at ofal plant neu waith chwarae
- iaith y ddarpariaeth gofal plant/gwaith chwarae a gyrchir
- ieithoedd cartref
- oedran y plentyn
- ardal breswyl wledig/drefol
- mam
- tad
- gofalwyr eraill gan gynnwys neiniau a theidiau
- rhieni maeth
- plentyn ag ADY
- rhieni mewn gwaith
- rhieni nad ydynt mewn gwaith
- ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- mudwyr (economaidd)
- 2il a 3ydd genhedlaeth
- treftadaeth gymysg
- ethnigrwydd rhieni
- ffydd

2.7 Recriwtio rhieni a gofalwyr

Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i recriwtio rhieni a gofalwyr yn amrywiol ac yn cynnwys:

- dosbarthu poster: Rhannwyd poster a baratowyd ymlaen llaw yn egluro pwrpas y prosiect gyda sefydliadau, grwpiau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni a theuluoedd ym mhob ardal. Roedd enghreifftiau'n cynnwys Blynnyddoedd Cynnar Cymru (BCC), Canolfannau Teulu Dechrau'n Deg, sefydliadau crefyddol, hybiau cymunedol a chymdeithasau cyfeillgarwch/cymunedol sy'n hyrwyddo cynhwysiant a chyfnewid diwylliannol
- cysylltu â lleoliadau gofal plant: Roedd y gwaith allgymorth yn cynnwys meithrinfeydd a grwpiau chwarae amlieithog cyfrwng Saesneg, Cylchoedd Meithrin cyfrwng Cymraeg, meithrinfeydd dwyieithog Cymraeg-Saesneg a lleoliadau Dechrau'n Deg Cymru

- defnyddio rhwydweithiau'r holl ymchwilwyr: Rhannwyd gwybodaeth am y prosiect trwy rhwydweithiau cymdeithasol lleol yr ymchwilwyr eu hunain
- lle bu'n anoddach ymgysylltu â chymunedau, gwnaed ymdrechion i ymgysylltu â theuluoedd trwy swyddogion cymorth, asiantaethau ac elusennau, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr ac elusennau sy'n cefnogi cymunedau ethnig lleiafrifol

Ar ddechrau'r ymchwil hon, roedd y tîm ymchwil yn ymwybodol iawn y gall recriwtio teuluoedd ethnig lleiafrifol i gymryd rhan mewn ymchwil gael ei rwystro gan ddiffyg ymddiriedaeth, rhwystrau diwylliannol ac iaith, diffyg cynrychiolaeth a rhwystrau ymarferol fel amser, gofal plant a hygyrchedd. Gall tangynrychiolaeth hanesyddol a phrofiadau negyddol gyda gwasanaethau arwain at amheuaeth ynghylch cymhellion ymchwil. Gall cymunedau ofni cam-fanteisio neu symbolaeth yn hytrach na chynhwysiant gwirioneddol (Javed et al 2025).

Yn aml, mae dulliau recriwtio traddodiadol (taflenni, gwahoddiadau ffurfiol) yn methu cyrraedd cymunedau ethnig lleiafrifol. Mae dibyniaeth ar rhwydweithiau prif ffrwd yn eithrio teuluoedd sydd â llai o gysylltiad â gofal plant ffurfiol neu systemau ymchwil. Adroddodd Canolfan Ymchwil Iechyd Ethnig Dwyrain Canolbarth Lloegr NIHR CLAHRC (2018, 2023) fod teuluoedd yn fwy tebygol o gymryd rhan pan fydd arweinwyr neu sefydliadau cymunedol dibynadwy yn rhan o'r recriwtio, Bashir (2023); NIHR (2018); Coram (d.d.). Mae ymwybyddiaeth gyfyngedig o gyfleoedd ymchwil ymhlith teuluoedd ethnig lleiafrifol yn cyfrannu at gyfranogiad isel. Canfu adolygiad Methodoleg Ymchwil Feddygol BMC (Farooqi et al, 2022) mai ymwybyddiaeth gyfyngedig a lledaenu gwybodaeth gwael yw'r prif resymau dros gyfranogiad isel ymhlith teuluoedd ethnig lleiafrifol.

Mae'r ffactorau hyn yn aml yn croestorri, gan wneud cyfranogiad yn anoddach a chyfyngu ar amrywiaeth mewn samplau ymchwil. Ystyriwyd y materion hyn yn gyson wrth gynllunio casglu data a recriwtio cyfranogwyr.

2.8 Y cyfranogwyr

Cymerodd cyfanswm o 20 o unigolion ran yn yr astudiaeth ymchwil ac roedd gan bob un ohonynt blant rhwng 0 ac 8 oed. O fewn rhai teuluoedd roedd nifer o frodyr a chwiorydd o fewn yr ystod oedran hon. Roedd chwech o gyfranogwyr yn ffoaduriaid ac yn rhieni a oedd yn ceisio lloches ac roedd 2 yn fewnfudwyr economaidd. Dywedodd pedwar cyfranogwr eu bod yn 2il neu'r 3ydd genhedlaeth a dywedodd 8 eu bod o dreftadaeth gymysg. Roedd gan rai o'r cyfranogwyr fwy nag un nodwedd.

Tabl 1: Nodweddion allweddol y teuluoedd sy'n cymryd rhan

Nodwedd	Nifer
Rhieni sy'n defnyddio gwasanaethau gofal plant neu waith chwarae	12
Rhieni nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau gofal plant neu waith chwarae	8
Mam	11
Tad	9
Rhieni mewn gwaith	6
Rhieni nad ydynt mewn gwaith	4
Cyflogaeth rhieni heb ei datgelu	10
Ffoaduriaid a cheiswyr lloches	6
Mudolwyr (economaidd)	2
2il neu 3ydd genhedlaeth	4
Treftadaeth gymysg	8

Roedd y ffydd a gynrychiolwyd ymhlith y cyfranogwyr yn cynnwys Cristnogion, Mwslimiaid, a Sikhiaid, yn ogystal â dim ffydd (naill ai heb ei datgan neu dewisodd unigolion beidio â datgelu).

Roedd ethnigrwydd y cyfranogwyr yn cynnwys grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog; Asiaidd, Asiaidd Gymreig neu Asiaidd Brydeinig; Du, Du Cymreig, Du Brydeinig; Caribïaidd neu Affricanaidd a grŵp ethnig arall; cefndir Affricanaidd; cefndir Asiaidd, Du, Du Brydeinig neu Du Caribïaidd; cefndir Cymysg neu Luosog arall; cefndir Gwyn arall a grwpiau ethnig eraill.

Roedd cyflogaeth ymhlith rhieni a gofalwyr yn cwmpasu ystod eang o alwedigaethau, gan gynnwys lletygarwch, harddwch a gofal, gwaith coed, gyrru tacsï, gwaith manwerthu, cyfieithu a rhedeg eu busnesau eu hunain.

2.9 Heriau wrth recriwtio cyfranogwyr ymchwil

Profodd recriwtio rhieni a gofalwyr a oedd yn fodlon cymryd rhan yn yr ymchwil i fod yn her sylweddol. Cawsom anhawster sylweddol wrth gysylltu â'r grŵp targed: ychydig iawn o ymateb a gafwyd i daflen y prosiect, ac nid oedd cysylltiadau proffesiynol a rhai di-broffesiynol sy'n gweithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr yn gallu creu ymgysylltiad chwaith. Cafwyd anawsterau wrth gysylltu â grwpiau ethnig penodol.

Roedd deuddeg o'r rhieni a gymerodd ran yn yr ymchwil yn defnyddio neu wedi defnyddio gwasanaethau gofal plant neu waith chwarae. Mynegodd rhai rhieni amharodrwydd i drafod eu hamgylchiadau personol, er eu bod yn fodlon cymryd rhan mewn trafodaethau cyffredinol. Roedd pum teulu wedi profi anawsterau gydag elfennau o wasanaethau gofal plant ac nid oeddent am drafod eu profiad ac roeddent yn ofni anawsterau pellach pe byddent yn cymryd rhan yn yr ymchwil. Roedd eraill yn amharod i gymryd rhan o gwbl, gan nad oeddent am gael unrhyw ffocws ar eu teuluoedd trwy ymchwil. Tynnodd pum rhiant a oedd wedi cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth yn ôl yn annisgwyl oherwydd amrywiol amgylchiadau teuluol ac ymrwymadau amser. Ar ddau achlysur, ni ddaeth rhiant i gyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw gydag ymchwilydd.

Roedd y tîm ymchwil yn cynnwys siaradwyr amlieithog i sicrhau cyn belled â phosibl na fyddai iaith yn rhwystr i unigolion a gymerodd ran ac nad oedd unrhyw enghreifftiau o fethu â chymryd rhan oherwydd dewisiadau iaith. Fe geisiwyd sicrhau bod y tîm ymchwil yn amrywiol a bod ganddynt rywfaint o ddealltwriaeth gyffredin o brofiadau byw'r cyfranogwyr. Cyn belled â bo modd trefnwyd y cyfweiliadau mewn lleoliad a oedd yn gyfarwydd ac yn gyfleus i'r cyfranogwyr, a threfnwyd amseroedd sgysiau ffôn a chyfweiliadau MS Teams i fod yn gyfleus i'r cyfranogwyr. Fe geisiwyd teilwra amseroedd y cyfweiliadau i gyd-fynd â'r cyfranogwyr. Fe wnaethom hefyd baratoi taflenni cyfeirio cymorth ar ôl y cyfweiliad.

2.10 Materion moesegol a blaenoriaethu lles cyfranogwyr

Cafodd y cyfranogwyr wybod drwy'r Hysbysiad Preifatrwydd ar y pwynt cyswllt cyntaf ac eto ar ddechrau pob cyfweiliad bod eu cyfranogiad yn wirfoddol a'u bod yn rhydd i dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg, gan gynnwys oedi neu adael y cyfweiliad ar unrhyw adeg. Cynghorwyd hwy i gymryd cymaint o amser ag oedd ei angen i feddwl am y cwestiynau cyn dechrau eu hateb. Os oedd cwestiynau nad oeddent am eu hateb, roeddent yn rhydd i beidio â gwneud hynny. Pwysleisiwyd bod cyfranogiad yn gyfrinachol, sy'n golygu na fyddai gwybodaeth bersonol ac ymatebion llawn mewn trafodaethau yn cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru. Ni fyddai unrhyw wybodaeth bersonol yn ymddangos ar unrhyw ddeunydd a gyhoeddir.

2.11 Casglu data

Oherwydd natur ansoddol yr astudiaeth hon, nid oedd bwriad i'r sampl fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth leiafrifol ethnig gyda phlant rhwng 0 ac 8 oed yng Nghymru gyfan ond yn hytrach darparu dealltwriaeth fanwl o safbwyntiau a phrofiadau cyfranogwyr. Hunan-ddewiswyd y sampl terfynol wrth i rieni ymateb i'r poster i a ddosbarthwyd gan ymchwilwyr neu wrth iddynt gael eu cysylltu'n uniongyrchol gan aelodau'r tîm ymchwil i ofyn a fyddent â diddordeb mewn cymryd rhan yn y prosiect. Cyfwelwyd ugain o rieni gan yr ymchwilwyr cymunedol. Cynhaliwyd cyfarfodydd ymchwil tîm a sgysiau unigol gydag ymchwilwyr cymunedol IAITH o ddechrau'r prosiect.

Darparodd staff Mudiad Meithrin gymorth i ddosbarthu poster i gylchoedd chwarae a lleoliadau meithrin a hefyd cynghori ar sefydliadau a chysylltiadau eraill fel Cwllwm a allai fod wedi gallu nodi cyfranogwyr posibl. Cynorthwyodd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn y broses recriwtio trwy ddosbarthu'r wybodaeth i aelodau grŵp Gofal Plant ArWAP. Yn anffodus, ni arweiniodd yr ymdrechion hyn at recriwtio unrhyw gyfranogwyr ychwanegol.

Roedd dull samplu pelen eira yn rhan o'r dull recriwtio a ddefnyddiwyd gan y tîm ymchwil (Parker et al., 2019). Mae'r dull hwn yn arbennig o addas mewn ymchwil sy'n cynnwys cymunedau sydd wedi profi ymyrraeth neu sy'n llai gweladwy mewn cysylltiadau gwasanaeth ffurfiol. Drwy fanteisio ar rwydweithiau cymdeithasol naturiol yr ymchwilwyr ac ymchwilwyr cymunedol, roedd yn bosibl cyrraedd cyfranogwyr a fyddai fel arall yn anodd eu cynnwys mewn ymchwil. Mae samplu pelen eira yn sicrhau bod cyfranogwyr yn cael eu henwebu gan unigolion y maent eisoes yn ymddiried ynddynt, gan annog cyfranogiad a sicrhau data cynrychioliadol o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymunedau.

2.12 Ardaloedd ymchwil

Cynigiwyd Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Gwynedd fel tri lleoliad ymchwil i adlewyrchu amrywiaeth ddemograffig a daearyddol Cymru. Mae'r lleoliadau hyn yn cynrychioli cymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig, rhanbarth dinas, trefi diwydiannol, trefi prifysgol a phentrefi gwledig. Mae gwahaniaethau hefyd o ran iaith (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg), cefndir economaidd-gymdeithasol, a lefelau amrywiaeth ethnig. Mae'r detholiad yn rhoi darlun cynhwysfawr o brofiadau cymunedau mewn gwahanol gyd-destunau Cymreig. Gallai ymchwilwyr cymunedol IAITH ac aelodau o dîm IAITH sy'n byw yn yr ardaloedd hyn gynnig gwybodaeth leol allweddol i hwyluso dull mwy cyd-destunol ac ystyrlon o'r ymchwil. Roeddem ni'n rhagweld y byddai cysylltiadau cymunedol yn sicrhau dull sensitif ac effeithiol wrth recriwtio cyfranogwyr. Ceisiodd y dull strategol hwn sicrhau dull amrywiol i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Roedd nifer y cyfranogwyr ymchwil a recriwtiwyd o bob ardal fel a ganlyn: 8 yng Nghaerdydd, 7 yng Ngwynedd a 5 yn Rhondda Cynon Taf.

Mae Tabl 2 (isod) yn rhoi dadansoddiad o'r boblogaeth yn ôl ethnigrwydd ar draws y tair ardal awdurdod lleol a gynhwysir yn yr astudiaeth hon.

Tabl 2: Proffil ethnig lleoliadau sampl

Grŵp Ethnig	Ardaloedd Daearyddol					
	Caerdydd		Gwynedd		Rhondda Cynon Taf	
	n	%	n	%	n	%
Gwyn	286,931	79.2%	112,987	96.2%	229,923	96.7%
Asiaidd	34,983	9.7%	1,968	1.7%	3,506	1.5%
Cymysg	14,506	4.0%	1,333	1.1%	2,469	1.0%
Du	13,896	3.8%	513	0.4%	997	0.4%
Grwpiau ethnig eraill	11,994	3.3%	591	0.5%	758	0.3%
Cyfanswm	362,310	D/B	117,392	D/B	237,653	D/B

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

2.13 Ansawdd data

Adolygwyd y data a gasglwyd ar gyfer pob teulu gan reolwr ymchwil prosiect IAITH. Cyn belled ag y bo modd, cyflawnwyd cydraddoldeb o ran lefel manylder a chynnwys ar draws y data. Yn ystod y broses o adolygu'r data a gasglwyd ar gyfer pob teulu, gwiriwyd y cofnodion am eglurder a manylder, bod y wybodaeth a roddwyd yn berthnasol ac yn rhoi dealltwriaeth o gefndir, amgylchiadau, dewisiadau a phrofiadau pob teulu o ran gofal plant a gwaith chwarae.

Defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau casglu data wyneb yn wyneb, rhithwir a dros y ffôn. Cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb mewn lleoliadau a oedd yn gyfarwydd i gyfranogwyr ac mewn amgylcheddau a allai annog cyfranogwyr i fod yn agored am eu profiadau. Roedd rhai cyfranogwyr yn fodlon cymryd rhan mewn cyfweiliadau rhithwir ond ni chytunasant i ddefnyddio'r camera. Dim ond trwy sgwrs ffôn yr oedd eraill yn fodlon cymryd rhan.

2.14 Offer ymchwil

Roedd yr offer ymchwil ar gyfer yr astudiaeth hon yn cynnwys: poster prosiect yn egluro amcanion yr astudiaeth i gyfranogwyr posibl; ffurflen ganiatâd i gyfranogwyr yn nodi cefndir yr astudiaeth; a chytundeb i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Cynhyrwyd taflen gwestiynau strwythuredig ar gyfer cyfweiliadau cyfranogwyr hefyd a oedd yn gwasanaethu fel taflen gofnodi ar gyfer nodiadau.

2.15 Dadansoddi data

Cafodd y data ei ddidoli a'i godio yn ôl y themâu a nodwyd o gwestiynau ymchwil y prosiect, llenyddiaeth ymchwil, tystiolaeth anecdotaidd, a themâu ychwanegol a nodwyd yn y data. Tynnwyd y codau hyn at ei gilydd i ddarparu fframwaith dadansoddol ar gyfer yr ymchwil. Yna cafodd y data a gasglwyd ei ddidoli a'i grwpio o dan godau data cyfatebol o fewn y fframwaith, gyda ffocws ar debygrwydd ac anghydraddoldeb ac enghreifftiau darluniadol yn y data.

3. Canfyddiadau

Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno canfyddiadau yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r data a gasglwyd mewn cydweithrediad ag 20 o deuluoedd ethnig leiafrifol. Adroddir y canfyddiadau hyn o dan y penawdau canlynol:

- Bywyd teuluol, cefndir, ac atgofion rhieni o ofal plant
- Mynediad - prosesau ymgeisio; rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau gofal plant a gwaith chwarae ffurfiol
- Defnydd - profiadau wrth ddefnyddio gofal plant ffurfiol
- Iaith
- Manteision gofal plant a gwaith chwarae

3.1 Bywyd Teuluol, cefndir, ac atgofion rhieni o ofal plant

Gofynnwyd i gyfranogwyr am eu bywyd teuluol, cefndir a'u profiadau eu hunain o ofal plant er mwyn cynyddu dealltwriaeth o sut mae profiadau bywyd, ffactorau diwylliannol, anghenion a dewisiadau teuluol unigol yn effeithio ar ddefnydd ChDGPC. Drwy eu gwahodd i fyfyrion ar eu magwraeth, disgwyliadau diwylliannol, rolau gofalu, ac arferion teuluol o ddydd i ddydd, ein nod oedd deall sut mae'r profiadau byw hyn yn dylanwadu ar eu penderfyniadau gofal plant. Helpodd y dull hwn i daflu goleuni ar amrywiol anghenion, dewisiadau a phwysau y mae teuluoedd yn eu llywio, a deall sut mae'r rhain, yn eu tro, yn effeithio ar pryd, pam, a sut maen nhw'n defnyddio gwasanaethau ChDGPC.

3.1.1 Bywyd teuluol a chefnidir

Nododd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr ymchwil fod eu profiad o fyw yng Nghymru yn un cadarnhaol. O'r 20 teulu a gymerodd ran, roedd 18 wedi symud i Gymru ar ryw adeg yn ystod eu bywydau, naill ai o ranbarth arall o'r Deyrnas Unedig neu o dramor. Roedd y rhesymau dros symud i Gymru yn cynnwys statws ffoadur neu i geisio lloches, fisâu myfyrwyr neu deuluol, fel mudwyr economaidd, neu am resymau teuluol a gwaith. Ymhlith y cyfranogwyr o'r 2il neu'r 3ydd genhedlaeth^[troednodyn1] roedd eu rhesymau dros symud i Gymru yn cynnwys perthnasoedd, ansawdd bywyd, a chyflogaeth. Roedd dau gyfranogwr wedi byw yng Nghymru drwy gydol eu hoes.

Mynegwyd barn gymysg gan gyfranogwyr ynglŷn â theimlo'n rhan o'r gymuned yng Nghymru. Mae ymchwil yn dangos bod ymwybyddiaeth rhieni o adnoddau cymunedol yn gwella eu gallu i wneud penderfyniadau gwybodus am ofal plant ac addysg blyneddoddd cynnar yn sylweddol. Mae Burns et al. (2022) yn pwysleisio bod rhieni yn aml yn "ddefnyddwyr heb lawer o wybodaeth" o wasanaethau addysg a gofal plentyndod cynnar a bod rhwystrau gwybodaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd ac addasrwydd y dewisiadau a wnânt. Mae tystiolaeth o fentrau ymgysylltu rhieni, fel y rhaglen Families Connect a ddatblygwyd gan Save the Children UK (2020), yn dangos bod cryfhau

[1] Yn y DU, mae "ail genhedlaeth" a "thrydydd genhedlaeth" fel arfer yn cyfeirio at faint o genedlaethau o deulu sydd wedi byw yn y wlad ar ôl mewnffudo. Disgrifiadau cymdeithasol a demograffig ydynt.

gwybodaeth rhieni am y gwasanaethau sydd ar gael yn gwella eu hyder a'u gallu i gefnogi dysgu cynnar, tra hefyd yn gwella eu gallu i lywio adnoddau cymunedol yn effeithiol. Mae barn ar deimlo'n rhan o'r gymuned yn berthnasol i'r astudiaeth hon gan fod gwybod pa adnoddau sydd ar gael o fewn cymuned yn helpu rhieni i wneud dewisiadau gwybodus am ofal plant ac opsiynau addysg blynyddoedd cynnar sydd ar gael iddynt. Mewn ardaloedd trefol, gwnaeth cyfranogwyr sylwadau eu bod yn byw mewn ardaloedd amlddiwylliannol a oedd yn "teimlo'n ddiogel." Er enghraifft, gwnaeth rhiant sylwadau am fyw yng Nghaerdydd:

"Mae'r gymdogaeth yn gyfeillgar ac yn amlddiwylliannol, ac mae yna lawer o gyfleusterau lleol fel parciau, siopau ac ysgolion gerllaw. Mae pobl yn gyffredinol yn garedig ac yn gymwynasgar, sy'n ei gwneud yn lle dymunol i fagu plant."

Dywedodd rhiant arall fod byw yng Nghymru yn ddiddorol iawn oherwydd bod ganddi ddiwylliant aml-amrywiol. Dywedon nhw am eu hardal:

"Mae gennym ni bobl yn gweithio i ffatrioedd. Mae rhai ohonyn nhw'n ddi-waith. Mae gen i bobl o Romania, Nigeria, Cwrdistan. Gweriniaeth Tsiec, Cymru, Llundain, Lloegr yn gyffredinol [...] pobl o Wlad Groeg, rhai o Bortiwgal. Felly, mae'n gymuned aml-amrywiol iawn."

Nid oedd eraill mor gadarnhaol am eu cymuned yng Nghaerdydd, ac roedden nhw'n teimlo nad oedd yr ardaloedd lle roedden nhw'n byw bob amser yn addas ar gyfer magu plant. Esboniodd un rhiant eu bod nhw ar y dechrau yn byw mewn llety i deuluoedd digartref, ond roedd defnyddwyr a gwerthwyr cyffuriau hefyd yn yr ardal ac nad oedd eu plant yn gallu chwarae y tu allan. Roedden nhw wedi symud i ardal arall o Gaerdydd ers hynny ond y broblem oedd diffyg plant yn y gymdogaeth. Roedd y gymuned yn "hen bobl i gyd, dim yn plentyn hyd yn oes." Dywedodd y rhiant fod y gymdogaeth newydd yn fwy dymunol a bod y cymdogion yn braf, ond roedd y rhiant yn teimlo "nad ydyn nhw'n ein hadnabod ni. Ffoaduriaid ydyn ni" a bod hyn yn creu teimladau o ynysu.

Dywedodd rhai rhieni eu bod nhw wedi dioddef hiliaeth yn bersonol pan gyrhaeddodd nhw Gymru gyntaf a gallai hyn effeithio ar eu hawydd i gymryd rhan mewn grwpiau gofal plant, mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol. Esboniodd rhiant pan gyrhaeddodd nhw gefn gwlad Cymru gyntaf, eu bod nhw wedi dioddef hiliaeth a gafodd ei adrodd i'r heddlu. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa wedi gwella: "bellach mae cysylltiadau da gyda rhieni o'r ysgol, cymuned y Cylch a thrwy gymdogion." Roedd gwneud cysylltiadau trwy leoliad gofal plant wedi eu cynorthwyo. Dywedodd rhiant arall eu bod nhw'n cael trafferth gyda hyder a hunaniaeth gan eu bod nhw'n byw mewn ardal wledig iawn a bod eu teulu'n "sefyll allan fel yr unig deulu ethnig o gwmpas" ac yn ei chael hi'n anodd ymddiried a defnyddio gwasanaethau oherwydd eu profiadau. Symudodd rhiant i dref dawel mewn ardal wledig o ddinas yn Lloegr a mwynhau pa mor dawel ydyw o'i gymharu â'r ddinas ond nid oeddent yn gwerthfawrogi'r hyn a ystyrient yn sylwadau beirniadol gan eraill yn eu hardal. Fodd bynnag, teimlai rhiant arall fod eu cymuned wledig yn groesawgar, lle mae pobl yn "gofalu am ei gilydd, yn well na bywyd yn y ddinas."

Ochr yn ochr â'r heriau ymarferol hyn, myfyriodd rhieni hefyd ar sut mae eu diddordebau personol yn ffitio i fywyd teuluol. Roedd llawer yn mwynhau hobiau â gwreiddiau yn eu cymunedau—chwaraeon, digwyddiadau cymdeithasol, nosweithiau ffilm, neu

weithgareddau creadigol fel crefftio. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnig cysylltiad a mwynhad. Eto i rai, yn enwedig y rhai a oedd gartref yn llawn amser gyda phlant ifanc, roedd cyfleoedd o'r fath yn teimlo allan o gyrraedd. Roedd gofynion gofal plant yn gadael ychydig o amser na egni ar gyfer hobiau neu gymdeithasu, ac weithiau roedd yr absenoldeb gofod personol hwn yn arwain at deimladau o ynysu. Heb gymryd rhan reolaidd mewn gweithgareddau cymunedol, roedd rhieni mewn perygl o golli mwy nag amser hamdden yn unig. Collasant gyfleoedd i feithrin cyfeillgarwch, rhannu cyngor, a dysgu am opsiynau gofal plant neu waith chwarae lleol. Daethant hefyd yn llai cysylltiedig ag adnoddau cymunedol gwerthfawr—grwpiau chwarae, hybiau, rhaglenni rhianta—a allai fel arall gynnig cefnogaeth.

3.1.2 Profiadau plentyndod cyfranogwyr o addysg feithrin neu ofal plant

Mae profiadau plentyndod rhieni eu hunain gyda meithrinfa neu ofal plant yn bwysig oherwydd eu bod yn llunio sut maen nhw'n teimlo am ofal plant, beth maen nhw'n ymddiried ynddo, a beth maen nhw'n ei ddisgwyl. Mae'r dylanwad hwn yn arbennig o bwysig i'w ddeall i rieni o gefndiroedd ethnig leiafrifol, oherwydd mae eu profiadau cynnar yn aml yn cael eu llunio gan normau diwylliannol, hanesion mudo, a rhwystrau mynediad sy'n wahanol i'r boblogaeth fwyafrifol.

Roedd profiadau'r cyfranogwyr o addysg feithrin neu ofal plant ffurfiol pan oeddent yn blant yn yr astudiaeth hon yn amrywiol. Rhannodd un rhiant eu bod wedi mynychu meithrinfa oherwydd eu bod yn unig blentyn. Roedd eu rhieni eisiau iddynt gael cyfleoedd i gymdeithasu a rhyngweithio â phlant eraill; roedd eu profiad wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau ynghylch eu plant eu hunain yn mynychu meithrinfeydd a gwasanaethau chwarae, mewn ffordd gadarnhaol, ac roeddent yn defnyddio gwasanaethau.

Wrth dyfu i fyny yn Affrica, cofiai rhiant am eu profiad o fynychu meithrinfa lle'r oedd plant yn siarad eu mamieithoedd a'u hieithoedd lleol. Ystyriwyd meithrinfa fel paratoad pwysig ar gyfer yr ysgol, gan ei fod yn cyflwyno Ffrangeg i blant cyn i addysg ffurfiol ddechrau. Wedi'i fagu yn Asia, mynychodd rhiant arall feithrinfa a gofal plant. Eglurwyd bod y profiad wedi llunio eu cred yng ngwerth addysg gynnar, gan ei fod wedi dylanwadu'n gadarnhaol arnynt i ddefnyddio gwasanaethau gofal plant ar gyfer eu plant eu hunain.

Disgrifiodd rhiant eu profiad o fynychu meithrinfa fel plentyn a dywedodd ei fod yn rhoi safbwynt gadarnhaol iddynt am addysg gynnar. Roeddent yn teimlo ei fod yn helpu i feithrin hyder ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd dysgu yn y blynyddoedd cynnar ac eisiau hyn i'w plentyn eu hunain. Roedd rhiant arall yn cofio mynychu meithrinfa a oedd yn eiddo i ffrind ei mam. Oherwydd y cysylltiad personol, roedd gofal plant yn teimlo'n fwy diogel ac yn fwy cyfforddus. Roedd profiadau diweddarach gyda darparwyr anghyfarwydd yn teimlo'n llai diogel o'i gymharu, ac yn arwain at amheuaeth a phheidio â gallu ymddiried yn llwyr yn y ddarpariaeth.

Cofiai rhiant eu bod wedi cael trafferth yn y feithrinfa fel plentyn. Yn y pen draw, cawsant eu tynnu o'r lleoliad oherwydd na allai'r staff ymdopi â'u hanghenion. Gadawodd y profiad hwn effaith barhaol, gan wneud iddynt boeni na fyddai lleoliadau'n ymdopi â'u plant eu hunain,

sydd hefyd yn cael trafferth gyda phryder. Esboniodd rhiant arall nad oeddent yn mynychu meithrinfa yn Affrica ac aethant yn syth i Flwyddyn Un. Roeddent yn teimlo nad oedd meithrinfa yn angenrheidiol, gan gredu y dylid darparu'r rhan fwyaf o addysg plentyn gartref. Disgrifiodd rhiant eu diwrnod cyntaf eu hunain yn yr ysgol yn eu gwlad enedigol, heb brofiad blaenorol o feithrinfa neu ofal plant fel profiad "llethol." Nid oeddent erioed wedi gweld na defnyddio pen, pensil, llyfr na llyfr copi o'r blaen. Roedd dal a defnyddio'r offer hyn yn teimlo'n rhyfedd, ac roeddent angen help gan eraill i ddysgu sut i'w defnyddio. Pwysleisiodd hyn yr heriau o fynd i mewn i'r ysgol heb baratoi ymlaen llaw ar gyfer y feithrinfa.

Oherwydd profiadau eu plentyndod eu hunain, roedd rhai rhieni'n gweld addysg feithrin neu ofal plant ffurfiol fel rhywbeth hanfodol i'w plentyn. Fodd bynnag, roedd eraill yn credu bod addysg gartref yn fwy addas i'w plentyn neu blant yn seiliedig ar eu diffyg presenoldeb eu hunain mewn darpariaeth feithrinfa.

3.2 Mynediad - prosesau ymgeisio a rhwystrau i gael mynediad at ddefnyddio gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae ffurfiol

Mae canolbwyntio ar brofiadau teuluoedd gyda gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae yn datgelu set gyson o anghenion a phwyntiau pryder, h.y. problem, neu rwystrau sy'n achosi anhawster, rhwystredigaeth, straen i rieni. O'r chwiliad cychwynnol am ddarparwr addas, i lywio hawliau a phrosesau ymgeisio, a realiti ymarferol defnyddio gwasanaeth o ddydd i ddydd, gall pob cam gyflwyno pwysau ac ansicrwydd. Mae'r heriau hyn yn cyfrannu nid yn unig at sut mae teuluoedd yn cael mynediad at ddarpariaeth ond hefyd at ba mor hyderus a chyson y gallant ei defnyddio. Mae'r adran hon yn amlinellu'r patrymau sy'n dod i'r amlwg ar draws y camau hyn, gan amlygu ble mae teuluoedd yn wynebu rhwystrau, a pha gefnogaeth sydd ei hangen arnynt amlaf.

Dywedodd deuddeg teulu a gymerodd ran yn yr ymchwil eu bod yn defnyddio, neu wedi defnyddio, gwasanaethau gofal plant neu chwarae ffurfiol ar gyfer eu plant ar hyn o bryd. Nododd y rhan fwyaf o deuluoedd eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Roedd ffynonellau gwybodaeth cyffredin yn cynnwys ffrindiau a chymdogion, trwy sôn am y gwasanaethau ar lafar, yn ogystal â sianeli mwy ffurfiol fel gwefan yr awdurdod lleol a'r llyfrgell leol. Esboniodd rhiant: "Edrychais ar wefan y Cyngor a chefais restr o enwau gwarchodwyr plant. Dewisais yn ôl pwy oeddwn i'n teimlo oedd orau i'm plentyn ar y pryd. Yn ddiweddarach, defnyddiais feithrinfa'r brifysgol oherwydd roeddwn i'n gwybod bod un ar gael." Dywedodd rhiant arall nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at wybodaeth: "Doeddwn i ddim yn gwybod ble i ddod o hyd i'r wybodaeth ar y dechrau; roedd yn rhaid i mi ofyn i'r Hwb Teuluoedd". Disgrifiodd rhai rhieni sut roeddynt gysylltu â gwarchodwyr plant neu feithrinfeydd yn uniongyrchol ar ôl chwilio drwy borth porth yr awdurdod lleol. Soniodd eraill am gael eu cyfeirio at wasanaethau drwy ganolfannau cymunedol, gan danlinellu rôl rhwydweithiau lleol a llwybrau cyfeirio ffurfiol wrth gysylltu teuluoedd ag opsiynau gofal plant.

3.2.1 Gwybod sut i wneud cais am wasanaethau gofal plant neu wasanaethau chwarae addas

Yn eu hymatebion, nododd 80% o rieni eu bod yn gwybod sut i wneud cais am wasanaethau gofal plant neu chwarae. Yn nodweddiadol, roedd rhieni â phlant 3 i 4 oed, neu'r rhai a oedd eisoes â brodyr a chwiorydd hŷn, yn gyfarwydd â'r broses o wneud cais am addysg feithrin yn eu hysgol neu feithrinfa leol. Roedd rhai wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn o'r blaen ac felly'n gwybod sut i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant, pwy i gysylltu ag ef ynghylch oriau addysgol a ariennir, a ble i geisio arweiniad. Roedd eraill yn dibynnu ar gyngor gan gymdogion a ffrindiau. Yn ogystal, chwaraeodd gweithwyr ieuchyd proffesiynol rôl allweddol wrth gyfeirio at wasanaethau, yn enwedig ar gyfer teuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'r ymatebion hyn yn awgrymu bod gan rieni profiadol, nad oeddent yn newydd i rianta hyder wrth lywio'r system a bod rhwydweithiau cymunedol yn cefnogi'r rhai llai cyfarwydd â'r system. Sicrhodd cefnogaeth broffesiynol gan weithwyr cymorth gynnwys teuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Gall teuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddibynnu'n fawr ar gyfeirio proffesiynol, gan amlygu pwysigrwydd canllawiau hygyrch, sy'n sensitif i ddiwylliant.

Roedd gan lawer o rieni brofiad blaenorol o ddefnyddio'r gwasanaethau hyn, a roddodd hyder iddynt wrth lywio'r broses ymgeisio. Roeddent yn gyfarwydd â cheisiadau ar-lein ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu am wasanaethau addysgol. Roedd lleiafrif o rieni yn cael trafferth gyda ffurflenni cais, oherwydd anawsterau deall yr iaith a ddefnyddiwyd. Fel arfer, datryswyd yr heriau hyn trwy gefnogaeth gan bartneriaid neu drwy ofyn i rieni eraill am arweiniad. Ar gyfer grŵp bach, chwaraeodd gweithwyr cymorth rôl hanfodol wrth eu helpu i wneud cais am leoedd gofal plant neu feithrinfa. Disgrifiodd rhieni archebu apwyntiadau gyda'r gweithwyr hyn pan oedd angen: "Os oes angen y gefnogaeth arnom ar unrhyw adeg, yna rydym yn ei ffonio. Rydym yn gwneud apwyntiad ac yn mynd ato."

Nododd mwyafrif y rhieni fod gwybodaeth am wasanaethau gofal plant yn gyffredinol hygyrch. Mae profiad blaenorol gyda gwasanaethau yn meithrin hyder ac yn lleihau rhwystrau. Roedd gofyn i rieni a ffrindiau eraill yn ddull anffurfiol ond effeithiol i nifer o deuluoedd. Fodd bynnag, mae dibynnu ar bartneriaid, neu rieni a theuluoedd eraill yn awgrymu nad yw canllawiau swyddogol bob amser yn glir neu'n ddefnyddiol Cyfeillgar i'r iaith. Gall iaith a therminoleg mewn ffurflenni cais fod yn rhwystr i rai rhieni, yn enwedig y rhai sydd â llythrennedd neu hyfedredd Saesneg cyfyngedig. Roedd angen cymorth proffesiynol ar grŵp bach fel canllawiau gan weithwyr cymorth neu ymwelwyr ieuchyd.

3.2.2 Ymwybyddiaeth o Raglenni Llywodraeth Cymru (Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant i Gymru)

Roedd ymwybyddiaeth o fentrau Llywodraeth Cymru fel Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn amrywio ymhlith cyfranogwyr. Dywedodd tua hanner y rhieni eu bod yn gwybod am Dechrau'n Deg neu gynlluniau eraill (nad ydynt yn rhan o Lywodraeth Cymru) fel Home-Start. Fodd bynnag, nid oedd Dechrau'n Deg ar gael mewn rhai ardaloedd, gan adael rhieni a fyddai wedi bod â diddordeb yn methu â'i gael. Mae teuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg os ydynt yn byw mewn ardaloedd difreintiedig dynodedig, er bod y broses gyflwyno ar wahanol lefelau o fewn pob Awdurdod Lleol. Mynegodd rhieni brofiadau cymysg gyda chyllid y llywodraeth, er enghraifft: "Nid yw cyllid y llywodraeth yn cefnogi teuluoedd lle mae dim ond un rhiant yn gweithio." Dywedodd

rhiant arall: "Mae'n dibynnu ar eich incwm, eich statws, a hefyd, mae'r ffurflenni'n anodd eu llenwi."

3.2.3 Rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau gofal plant neu chwarae ffurfiol

Mae'r prif rwystrau a grybwyllir gan rieni wrth gael mynediad at wasanaethau gofal plant a chwarae ffurfiol yn tanlinellu materion sy'n ymwneud â chost, hygyrchedd, gwahaniaethau diwylliannol, pryderon diogelwch, ac argaeledd gwasanaethau.

Rhwysterau gweinyddol

Roedd y rhwystrau gweinyddol yn cynnwys ffurflenni cais ar gyfer gwasanaethau gofal plant a ddisgrifiwyd gan rai cyfranogwyr fel rhai anodd eu cwblhau, gan greu heriau i rieni nad oeddent yn gyfarwydd â'r broses. Gwnaeth rhiant sylw bod "y ffurflenni'n anodd eu llenwi." Nodwyd diffyg gwybodaeth glir am gyllid a chymhwysedd, gyda rhieni'n gofyn am fwy o dryloywder. Nid oedd nifer fach o rieni'n gwybod sut i wneud cais am wasanaethau a ariennir gan y llywodraeth. Roedd y rhesymau'n cynnwys anghymhwysedd neu ddiffyg diddordeb mewn defnyddio'r gwasanaethau.

Rhwysterau Ariannol

Cost gwasanaethau oedd y rhwystr a grybwyllwyd amlaf. Adroddodd rhieni nad ydynt yn gymwys ar gyfer lleoedd a ariennir eu bod yn cael anawsterau sylweddol wrth fforddio gofal plant. Dywedodd rhiant fod costau gofal plant yn heriol i rieni nad ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau, a gall plant golli allan ar ddarpariaeth gwasanaeth. Awgrymodd rhai rhieni y byddai mwy o gymorth ariannol yn fuddiol i sicrhau mynediad cyfartal. I rai cyfranogwyr, roedd cost hefyd yn ffactor dros ddewis peidio â defnyddio gwasanaethau gofal plant. Er enghraifft, dywedodd rhiant "na all rhieni fforddio gofal plant mwyach."

Argaeledd gofal plant

Roedd argaeledd cyfyngedig sesiynau gofal plant ar adegau addas ar gyfer anghenion rhieni yn broblem gyson. Esboniodd rhiant: "Nid yw fy oriau gwaith yn cyd-fynd â'r oriau pan fydd y gwasanaethau hyn ar gael." Dywedodd teuluoedd y byddent yn hoffi cael mynediad at amseroedd mwy hyblyg i gyd-fynd ag amserlenni gwaith ac ysgol. Ystyriwyd bod hyblygrwydd wrth drefnu gofal plant yn hanfodol, gan fod llawer o rieni'n cael trafferth paru oriau gofal plant ag ymrwymadau gwaith.

Pellter o wasanaethau a hygyrchedd

Soniwyd bod pellter o wasanaethau yn rhwystr, yn enwedig gan deuluoedd mewn ardaloedd gwledig lle mae'r ddarpariaeth yn fwy cyfyngedig. Lle'r oedd darpariaeth ar gael, roedd teuluoedd yn teithio mewn cerbydau personol gan nad oedd yr amserlenni trafniadaeth gyhoeddus cyfyngedig yn aml yn cyd-fynd â darpariaeth gwasanaethau gofal plant. Mewn llawer o bentrefi dim ond un gwasanaeth gofal plant sydd ar gael (e.e. Ti a Fi

neu Gylch Meithrin). Yn gyffredinol, adroddodd cyfranogwyr trefol am lai o rwystrau, gan nodi bod grwpiau chwarae a darpariaeth gofal plant yn lleol ac yn hawdd eu cyrraedd.

Rhoddodd teuluoedd yn yr astudiaeth ddarlun amrywiol o sut yr oeddent yn symud trwy eu harferion dyddiol ac yn cael mynediad at y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt. Teithiai llawer yn eu ceir eu hunain, gan roi'r hyblygrwydd iddynt gyrraedd gwasanaethau gofal plant neu waith chwarae yn gymharol hawdd. Roedd eraill yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus—bysiau yn amlaf—a oedd, er yn llai cyfleus, yn dal i ganiatáu iddynt gyrraedd y gwasanaethau yr oeddent yn dibynnu arnynt. I rieni sy'n byw mewn trefi a dinasoedd, roedd y sefyllfa'n teimlo hyd yn oed yn symlach. Yn aml, dim ond taith gerdded fer iddynt oedd gofal plant, siopau, a hanfodion eraill, gan wneud i fywyd bob dydd deimlo'n hylaw ac wedi'i gysylltu'n dda.

Roedd y profiad yn wahanol i deuluoedd mewn ardaloedd gwledig. Siaradodd sawl rhiant am brinder cyfleusterau lleol a'r cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gael i'w plant. Roedd llai o opsiynau gofal plant ac yn aml roedd ymhell o gartref, gan olygu bod teithiau hir yn rhan arferol o drefnu gofal. Daeth trafnidiaeth, neu ddiffyg trafnidiaeth, yn ffactor diffiniol yn eu bywydau beunyddiol. Tra bo teuluoedd trefol yn elwa o agosrwydd a chyfleustra, roedd teuluoedd gwledig yn wynebu rhwystrau logistaidd a oedd yn culhau eu dewisiadau ac yn ychwanegu pwysau..

Darpariaeth ieithyddol fel rhwystr

Ni chafodd iaith a darpariaeth yn Saesneg a/neu'r Gymraeg ei hadrodd yn eang fel rhwystr, er bod rhiant wedi nodi y gallai'r iaith Gymraeg atal teuluoedd nad ydynt yn ei deall rhag defnyddio gofal plant, gan fod y ddarpariaeth gofal plant mewn rhai ardaloedd ar gael yn y Gymraeg yn unig. Pwysleisiodd rhiant arall effeithlonrwydd yn fwy na phryderon iaith: "Fy mhrif bryder mewn gwirionedd yw sicrhau bod gennym wasanaeth effeithlon sy'n gweithio."

Rhwystrau diwylliannol

Mynegodd rhai rhieni bryderon ynghylch gwahaniaethau diwylliannol ac a fyddai staff yn deall eu cefndir neu eu hiaith. Er enghraifft, cyfeiriodd rhieni at yr awydd i gadw ieithoedd brodorol yn ogystal â defnyddio Saesneg a/neu'r Gymraeg. Roeddent yn pryderu am yr angen i'w plant lywio arferion diwylliannol gwahanol mewn lleoliadau gofal plant ac yn y cartref. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig i blant aros mewn cysylltiad â'u gwreiddiau diwylliannol ac ieithyddol. Cyfeiriodd rhieni at beidio ag anghofio "ein hiaith," "ein crefydd" a'n "traddodiadau". Dywedodd rhiant fod diwylliant yn bwysig i'w plant gan mai "eu diwylliant nhw ydyw, felly mae'n bwysig iawn, iawn gwybod o ble maen nhw'n dod, gwybod eu gwreiddiau a bod yn falch o ble maen nhw'n dod."

Teimladau am ddiogelwch

Cododd lleiafrif o rieni bryderon ynghylch diogelwch plant mewn lleoliadau gofal plant. Soniodd rhiant: "Gallai profiad negyddol yn y gorffennol y mae eich plentyn yn adrodd amdano i chi, fel triniaeth wael i'r plentyn" wneud rhieni'n amharod i ddefnyddio gofal plant.

Cyfeiriodd un rhiant at sefyllfa lle ymosodwyd ar blentyn ffrind gan blentyn arall mewn lleoliad addysgol. Roedd y profiad hwn wedi dylanwadu'n ddwfn ar ymagwedd y rhiant at ddiogelwch eu plant eu hunain. O ganlyniad, roeddent yn amharod i'w cofrestru mewn addysg gynnar neu ofal plant nes eu bod yn siaradwyr Saesneg hyderus, neu'n gallu mynegi eu hunain yn glir pe bai unrhyw beth niweidiol yn digwydd. Mae'r pryder hwn yn dod yn fwy amlwg i deuluoedd o gefndiroedd ethnig leiafrifol, a allai eisoes deimlo llai o ymddiriedaeth mewn sefydliadau neu boeni am beidio â chael eu deall. Dywedodd rhiant y gallai profiadau gofal plant yn y gorffennol, naill ai'n lleol neu dramor, "ddirmygu teuluoedd rhag defnyddio gwasanaethau gofal plant oherwydd profiadau negyddol."

Gwnaeth rhieni eraill sylwadau hefyd am bryderon ynghylch diogelwch eu plentyn mewn lleoliadau gofal plant. Nododd un rhiant bryderon diogelwch fel y ffactor pendant. Esboniodd, oherwydd eu cysylltiad gwleidyddol a'u cais parhaus am loches wleidyddol, eu bod yn teimlo eu bod yn gorfod craffu'n fanwl ar amgylcheddau gofal plant. Os nad oedd y lleoliad yn bodloni eu safonau personol ar gyfer diogelwch, byddent yn gwrthod y gwasanaeth, gan flaenoriaethu amddiffyn eu teulu. I unigolion neu deuluoedd agored i niwed fel ceiswyr lloches, mae ystyriaethau diogelwch yn bwysicach na chyfleustra lleoliad a hygyrchedd gwasanaethau a manteision datblygiadol gofal plant.

Roedd rhieni'n disgwyl safonau uchel o ran glendid a diogelwch mewn lleoliadau gofal plant. Gall methiannau danseilio ymddiriedaeth yn y lleoliad. Cododd rhiant faterion ynghylch plant yn eistedd ar garpedi budr, gan gwestiynu hylendid. Esboniodd "Cefais ddadl iach gyda'r staff am yr iechyd, am y diogelwch, am yr hylendid, am y pethau ergonomig. Er enghraifft, gofyn i'r plant eistedd i lawr, dal i eistedd i lawr ar y carped, sy'n fudr iawn, yn fudr. Mae gan yr holl blant yma esgidiau budr. Yn chwarae ar y carped ac ar yr un pryd yn eistedd draw fan'na."

Tynnodd rhieni sylw'n gyson at ddiogelwch plant fel y pryder pwysicaf. Soniodd rhiant fod eu penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth a gwybodaeth am fagu plant, gan bwysleisio bod sicrwydd ynghylch protocolau diogelwch yn hanfodol. Pwysleisiodd rhiant arall y byddai gwybodaeth glir am fesurau diogelwch yn pennu a fyddent yn caniatáu i'w plentyn fynychu lleoliad. Mae mesurau diogelwch gweladwy yn meithrin ymddiriedaeth ac yn lleihau pryder rhieni.

Diffyg argaeledd gofal plant addas

Nododd nifer fach o gyfranogwyr yr astudiaeth eu bod yn defnyddio gofal plant preifat wedi ei hunan-ariannu. Yn aml, roedd eu penderfyniad wedi'i lunio gan angen yn hytrach na dewis. Roedd y rhesymau dros ddefnyddio gofal plant wedi ei hunan-ariannu yn cynnwys diffyg argaeledd pan oedd lleoliadau gyda lleoedd a ariennir gan y Ganolfan Gofal Plant yn llawn, gan adael rhieni heb fynediad. Mewn rhai achosion, nid oedd y ddarpariaeth gofal plant a ariennir yn cyd-fynd â'r oriau a'r dyddiau yr oedd eu hangen ar rieni. I rai, gofal plant preifat oedd yr unig opsiwn i'w galluogi i ddychwelyd i'r gwaith. Esboniodd rhiant: "oherwydd nad oes gennym unrhyw opsiwn ar gyfer gwaith, roedd yn rhaid i ni dalu am ofal plant i allu dychwelyd i'r gwaith a phopeth." Heb ofal plant fforddiadwy ac ar gael, mae rhieni, yn enwedig mamau, yn wynebu rhwystrau i ailymuno â'r gweithlu. Dywedodd rhai rhieni hefyd

fod gofal plant preifat yn rhy ddur, gan ei ddisgrifio fel "allan o gyrraedd." Mae'r canfyddiad o ofal plant hunan-ariannu fel "allan o gyrraedd" yn pwysleisio problemau fforddiadwyedd, yn enwedig i rieni sy'n ffoaduriaid. Hyd yn oed pan fydd teuluoedd yn llwyddo i dalu, gall y baich ariannol fod yn sylweddol.

3.3 Defnydd - profiadau wrth ddefnyddio gofal plant

Mae cefnogi teuluoedd yn effeithiol yn dechrau gyda deall y realiti amrywiol sy'n rhaid iddynt eu llywio. Mae'r adran hon yn archwilio beth sydd ei angen gan wasanaethau ChDGPC ar wahanol fathau o deuluoedd, a'r ffactorau a fyddai'n gwneud darpariaeth gofal plant yn fwy deniadol ac yn haws i'w defnyddio.

Yn gyffredinol, mynegodd rhieni o gefndiroedd ethnig leiafrifol mewn ardaloedd gwledig a threfol farn gadarnhaol am wasanaethau gofal plant. Fe'u disgrifiasant fel rhai cynhwysol, cefnogol a chroesawgar. Esboniodd rhiant eu proses gwneud penderfyniadau:

"Fel arfer, rwy'n gwneud penderfyniadau ar ôl ymweld â'r lleoliad, cwrdd â'r staff, a chlywed adborth gan rieni eraill. Mae amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar yn gwneud gwahaniaeth mawr."

Cyfaddefodd rhai rhieni nad oeddent yn gwybod llawer am wasanaethau gwaith chwarae yn eu cymunedau. Teimlai eraill fod y ddarpariaeth yn rhy bell i ffwrdd i fod yn ddefnyddiol, gan gyfyngu ar hygyrchedd a defnydd.

Disgrifiodd cyfranogwr sut roedd grŵp o rieni yng Nghaerdydd yn trefnu eu gweithgareddau eu hunain trwy rentu neuadd gymunedol am ddwy awr yr wythnos i ddarparu gweithgareddau trwy gyfrwng eu mamiaith gyffredin. Fe wnaethant gronni adnoddau i dalu am athro a oedd yn darparu gwersi iaith a gweithgareddau chwaraeon. Esboniodd rhiant: "Yn ein grŵp ni, mae gennym ni fechgyn a merched o'r un oedran. Cyn i ni gyfarfod, rydym yn rhoi neges ar y sgwrs grŵp. Rydym yn dod â'r holl blant ifanc at ei gilydd. Mae'r bechgyn yn cael hyfforddiant ac yn chwarae gyda'i gilydd, ac rydym yn eu cefnogi fel 'na." Dyma enghraifft o rieni'n creu eu hatebion eu hunain pan oedd darpariaeth ffurfiol yn absennol, gan awgrymu galw heb ei fodloni. Roedd rhieni'n ddyfeisgar, ac yn barod i hunan-drefnu pan oedd gwasanaethau'n brin, ond mae hyn yn rhoi beichiau ariannol a logistaidd ychwanegol arnynt.

3.3.1 Gofal Plant Anffurfiol a Ddarperir gan Deulu a Ffrindiau

Pwysleisiodd rhieni bwysigrwydd ymddiriedaeth wrth ddibynnu ar ofal plant anffurfiol yn gyson. Ceisiwyd cefnogaeth gan bobl yr oeddent yn eu hadnabod yn dda fel aelodau o'r teulu, rhieni-yng-nghyfraith, ffrindiau agos, neu gymdogion dibynadwy, gan fod cyfarwyddyd yn rhoi sicrwydd a thawelwch meddwl. Yn aml, mae ymddiriedaeth wedi'i gwreiddio mewn profiadau a rennir, fel perthnasau sydd â phlant o oedrannau tebyg neu gyfeillgarwch hirhoedlog. Cyfeiriodd cyfranogwyr at deulu eu mam, eu mam-yng-nghyfraith, a'u partner yn darparu cymorth cyson, yn enwedig gyda chludiant ysgol ac ar benwythnosau. Esboniodd un rhiant: "Mae'r gefnogaeth honno mewn gwirionedd yn bwysig iawn oherwydd hebddi ni

fyddwn yn gallu gwneud gwaith gwirfoddol na mynychu cyfarfodydd." Mae aelodau o'r teulu a rhieni-yng-nghyfraith sy'n byw yn yr un ddinas yn ffynhonnell gyffredin o ofal plant, gan gynnig cymorth rheolaidd ac achlysurol.

Yn aml, roedd ffrindiau'n helpu gyda chasglu plant o'r ysgol neu gyfnodau byr o ofal, er enghraifft pan fydd gan rieni apwyntiadau. Roedd cymdogaion dibynadwy hefyd yn chwarae rhan. Mae rhieni'n disgrifio'r gefnogaeth hon fel un hanfodol ar gyfer cydbwyso gwaith, gwirfoddoli a chyfrifoldebau personol. Mae gofal plant anffurfiol yn darparu hyblygrwydd a thawelwch meddwl, yn enwedig pan fydd gan aelodau'r teulu brofiad gyda phlant. Esboniodd rhiant: "Mae'n bwysig iawn. Mae cael teulu neu ffrindiau dibynadwy i ddibynnu arnynt yn rhoi tawelwch meddwl a hyblygrwydd wrth reoli cyfrifoldebau teuluol a phersonol."

Nid yw pob rhiant yn teimlo eu bod yn gallu dibynnu ar eraill. Er enghraifft, dywedodd rhiant na allent "ymddiried mewn unrhyw un i ofalu am eu plant oherwydd problemau personol." I'r teuluoedd hyn, gall diffyg ymddiriedaeth neu amgylchiadau personol gyfyngu ar fynediad at ofal plant anffurfiol, gan gynyddu'r frwydr i reoli ymrwymïadau dyddiol. Dim ond pan fyddant yn teimlo'n hyderus yng nghyfrifoldeb a phrofiad y gofalwr y byddai rhieni'n dibynnu ar ofal plant anffurfiol.

3.3.2 Gwasanaethau neu sefydliadau lleol sy'n cefnogi teuluoedd â phlant ifanc

Yn aml, roedd cyfranogwyr yn dibynnu ar gymysgedd o rwydweithiau cymorth ffurfiol ac anffurfiol. Roedd ymwelwyr ieuchyd yn chwarae rhan ganolog, gan gynnig arweiniad, cysylltu teuluoedd â gwasanaethau, ac weithiau ymgysylltu'n uniongyrchol â chofrestru ar gyfer darpariaeth. Roedd rhai teuluoedd wedi defnyddio Home-Start gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth gyfrinachol am ddim a chymorth ymarferol i rieni plant ifanc sy'n byw yng Nghymru ac sy'n mynd trwy brofiadau heriol. Cynigiwyd cefnogaeth wedi'i theilwra i deuluoedd ynghylch dod o hyd i ofal plant, yn enwedig ynghylch gofal plant a datblygiad plant, a oedd yn eu hannog i ddefnyddio gofal plant.

Yn aml, roedd sefydliadau ffydd yn darparu cefnogaeth gymunedol, er y gallai mynediad ddibynnu'n fawr ar gysylltiadau personol a chyfranogiad. Fodd bynnag, yn aml, roedd sefydliadau ffydd yn gofyn am berthnasoedd presennol, a all eithrio teuluoedd sydd â llai o gysylltiadau. Cyfeiriodd sawl cyfranogwr at wefannau awdurdodau lleol a llwyfannau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol a allai gyfeirio teuluoedd at wasanaethau a gwybodaeth. Soniodd rhai rhieni fod llyfrgelloedd fel Llyfrgell Caerdydd a llyfrgelloedd ALI Gwynedd yn cynnal gweithgareddau i blant, gan ddarparu cyfleoedd addysgol a chymdeithasol. Roedd gweithgareddau i blant hefyd ar gael i deuluoedd mewn canolfannau hamdden awdurdodau lleol. Cyfeiriodd rhieni a oedd yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches sy'n byw yng Nghaerdydd at gefnogaeth a ddarperir gan ganolfannau cymunedol.

3.3.3 Rhesymau dros benderfynu peidio â defnyddio gofal plant neu wasanaethau chwarae

Roedd y prif resymau pam y dewisodd 8 rhiant beidio â defnyddio gofal plant neu wasanaethau chwarae yn seiliedig ar dri phrif ffactor:

- awydd i ofalu'n bersonol am eu plant fel rhieni sy'n aros gartref, oherwydd credoau personol. Mae gan rai rhieni gredoau personol cryf ynglŷn â magu eu plant eu hunain, sy'n aml yn gysylltiedig â gwerthoedd diwylliannol neu deuluol, fel peidio â bod eisiau i'w plant anghofio iaith eu teulu, diwylliant cefndir neu grefydd
- profiadau negyddol blaenorol gyda gofal plant, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyfoedion, ffrindiau neu deulu. Mae profiadau cyfoedion yn chwarae rhan sylweddol wrth lunio penderfyniadau rhieni, gan ddangos sut y gall naratifau cymunedol atgyfnerthu neu danseilio ymddiriedaeth mewn gofal plant
- mae cost gwasanaethau gofal plant yn ormod i rai teuluoedd gan wneud gofalu am blant gartref yr unig opsiwn ymarferol

Adroddodd nifer fach o rieni, er eu bod wedi defnyddio gofal plant ar gyfer brodyr a chwiorydd hŷn yn flaenorol, eu bod wedi penderfynu yn ei erbyn ar gyfer plant iau oherwydd "profiadau gwael neu gymysg" sy'n awgrymu canfyddiadau sy'n esblygu neu ofal cynyddol. Yn yr un modd, dylanwadodd clywed am brofiadau negyddol teulu neu ffrindiau mewn gofal plant a meithrinfeidd ar benderfyniadau rhai rhieni.

Teimlai rhai cyfranogwyr fod rhieni eraill, nad oeddent o gefndiroedd ethnig leiafrifol, yn gwrthsefyll sesiynau ymwybyddiaeth ar bynciau amrywiaeth (hil, diwylliant), gan gredu mai dim ond am draddodiadau lleol o Gymru y dylai plant ddysgu. Achosodd yr agweddau hyn i rai o'r cyfranogwyr fod yn ansicr ynghylch defnyddio gwasanaethau gofal plant. Esboniodd rhiant: "Dydy rhai rhieni ddim yn hoffi i'w plant ddysgu am wahanol ethnigrwydd... maen nhw'n [teimlo] mai dim ond am Gymru y dylen nhw fod yn dysgu."

Yn ogystal, yn yr ymchwil hon, roedd rhai teuluoedd o gefndiroedd diwylliannol gwahanol yn teimlo nad oedd agweddau ar y ddarpariaeth gwasanaeth yn cyd-fynd yn llawn â'u gwerthoedd na'u harferion. Er enghraifft, nododd tri rhiant yn yr astudiaeth fod amrywiaeth rhywedd a hunaniaeth ymhlith staff mewn lleoliadau yn anghyfarwydd iddynt ac nad oeddent yn cyd-fynd â'u credoau diwylliannol neu bersonol eu hunain.

Dywedodd rhai cyfranogwyr nad yw teuluoedd sy'n profi unigedd cymdeithasol o reidrwydd yn ceisio gwasanaethau gofal plant. Gwnaeth rhiant y sylw, "dydyn nhw ddim yn mynd allan, dydyn nhw ddim yn gofyn ... does neb yn eu tywys ac nid oes ganddyn nhw gefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol." Gall diffyg gwybodaeth neu ymwybyddiaeth am wasanaethau gofal plant a manteision gofal plant leihau cymhelliant. Dywedodd nifer fach o rieni y byddent yn well ganddynt aros nes bod plant yn 5 i 6 oed cyn defnyddio gwasanaethau gofal plant neu chwarae heblaw addysg gynnar oherwydd eu bod yn teimlo ei bod hi'n rhy gynnar i'w plentyn, gan na allent fynegi eu hunain yn llawn. Roedd eraill yn ansicr a oedd eu plentyn yn barod ar gyfer gofal plant am resymau datblygiadol gan gynnwys datblygu salwch cyffredin pan fyddai'n agored i eraill.

Nid oedd petruster rhieni ynghylch defnyddio gwasanaethau gofal plant a chwarae yn ymwneud â chost neu logisteg yn unig. Roedd pryderon yn adlewyrchu materion dyfnach o ymddiriedaeth, gwerthoedd diwylliannol, iaith a chefnogaeth gymdeithasol. Roedd rhai

pryderon yn ymarferol (cost, hygyrchedd), tra bod eraill yn emosiynol neu'n ddiwylliannol. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod pryderon yn amrywio'n fawr ar draws teuluoedd, sy'n golygu bod yn rhaid i atebion fod yn hyblyg ac yn sensitif i anghenion amrywiol.

3.3.4 Beth fyddai'n helpu rhieni i wneud penderfyniadau am addysg feithrin neu ofal plant

Dywedodd cyfranogwyr fod rhieni o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn cael eu helpu fwyaf pan fydd lleoliadau gofal plant ac addysg feithrin yn cyfuno dibynadwyedd ymarferol â sicrwydd emosiynol gan groesawu teuluoedd i'r lleoliadau, a chysylltu rhieni â rhwydweithiau ehangach fel ymwelwyr iechyd a grwpiau cyfoedion. Cyfeiriodd cyfranogwyr at ystyriaethau ymarferol: lleoliad, fforddiadwyedd, oriau agor, hyblygrwydd o amgylch oriau gwaith ac argaeledd lleoedd ar restrau aros. Esboniodd rhiant ei bod yn bwysig iawn cael cymorth gofal plant a'i fod yn cael ei gymhorthdal "oherwydd er mwyn gallu gweithio fel teulu, er mwyn gallu fforddio cost byw, mae angen i chi allu cael mynediad at waith."

Roedd argymhellion gan ffrindiau, teulu, neu rwydweithiau cymunedol yn ffactorau pwysig i lawer o gyfranogwyr ynghyd â phrofiadau geiriol gan rieni eraill, y bydd plant yn ddiogel, yn cael gofal, ac yn hapus. Mae llawer o'r materion hyn a godwyd yn yr ymchwil yn gyffredin i rieni plant ifanc, ac nid yn unig i rieni o gefndiroedd ethnig leiafrifol.

Roedd argraffiadau cyntaf wrth ymweld â lleoliad am y tro cyntaf yn ffactor arwyddocaol, gan gynnwys staff cyfeillgar a chyfathrebu clir. Roedd ymweld â'r lleoliad yn caniatáu i rieni fesur cynhwysiant o fewn yr amgylchedd, yn enwedig parch at wahaniaethau diwylliannol, ieithyddol a theuluol. Cyfeiriwyd at rôl Ymwelwyr Iechyd gan sawl cyfranogwr, a helpodd eu rôl wrth ddarparu parhad gofal o'r enedigaeth rieni i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn llai ynysig. I'r teuluoedd hynny oedd yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg, roedd mewnbwn Ymwelwyr Iechyd, a oedd yn gweithredu fel pont rhwng teuluoedd a gwasanaethau ehangach fel gofal plant, therapi lleferydd a grwpiau rhianta, yn cael ei werthfawrogi. Awgrymodd rhiant oedd yn Ffoadur y gallai gweithwyr cymorth ddangos teuluoedd o amgylch lleoliadau gofal plant i feithrin cyfarwyddyd.

Tynnodd rhieni sylw at sawl ffactor sy'n dylanwadu ar eu defnydd o wasanaethau gofal plant a chwarae. Roedd llawer o rieni'n poeni am ddiogelwch eu plant ac eisiau sicrwydd ynghylch protocolau. Roeddent hefyd eisiau gwasanaethau gofal plant sy'n ddiogel, yn fforddiadwy, yn hyblyg, yn gynhwysol yn ddiwylliannol, ac wedi'u cefnogi gan wybodaeth glir a chanllawiau cymunedol.

Pwysleisiodd cyfranogwyr yn yr ymchwil fod rhieni'n chwilio am wybodaeth am ofal plant sy'n syml, yn hygyrch, ac ar gael trwy sianeli lluosog. Mae teuluoedd eisiau gallu deall pa wasanaethau sy'n bodoli, sut maen nhw'n gweithio, a pha gefnogaeth y gallent fod â hawl iddi, heb orfod chwilio'n helaeth na llywio systemau cymhleth. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth glir ar-lein, deunyddiau printiedig fel taflenni y gellir eu codi mewn lleoliadau cymunedol, ac arweiniad uniongyrchol gan weithwyr proffesiynol dibynadwy a all esbonio opsiynau mewn ffordd syml, sy'n sensitif yn ddiwylliannol.

Nodwyd hefyd fod rhieni'n aml yn cael trafferth gydag amserlenni anhyblyg o fewn lleoliadau gofal plant. Byddai teuluoedd ag oriau gwaith afreolaidd neu blant lluosog yn elwa o amserlenni gofal plant addasadwy. Byddai cynnig oriau estynedig, opsiynau rhan-amser, a sesiynau galw heibio yn gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i deuluoedd sy'n gweithio. Siaradodd rhieni hefyd am ddiffyg gwasanaethau ar ôl ysgol am ddim, fel gweithgareddau chwaraeon neu gerddoriaeth i blant ifanc. Ystyriwyd mai gofal plant ar ôl ysgol neu wasanaethau chwarae i blant oedran ysgol oedd y bwlch mwyaf yn y ddarpariaeth gofal plant.

3.4 Iaith

Mae iaith yn llunio sut mae teuluoedd ethnig leiafrifol yn dod ar draws gofal plant ffurfiol am y tro cyntaf ac yn parhau i'w brofi. Pan nad yw gwybodaeth yn glir, nad yw ar gael yn iaith ddewisol teulu, neu pan gaiff ei chyflwyno heb ymwybyddiaeth ddiwylliannol, gall greu dryswch a gwanhau ymddiriedaeth. Gall y rhwystrau hyn wneud i deuluoedd deimlo'n annymunol ac yn y pen draw eu digalonni rhag ymgysylltu â gwasanaethau gofal plant.

3.4.1 Defnydd iaith yn y cartref

Ar draws y teuluoedd a gymerodd ran yn yr ymchwil, chwaraeodd iaith ran sylweddol wrth lunio sut roeddent yn ymdrin ag opsiynau gofal plant a gwaith chwarae. Roedd wyth teulu yn bennaf yn defnyddio Saesneg yn y cartref, tra bod saith yn defnyddio ieithoedd eraill fel Dari, Punjabi, Ffrangeg, Arabeg a Cwrdeg. Roedd llawer yn ddwyieithog neu'n amlieithog, gan gymysgu Saesneg â Chymraeg, Yoruba, Arabeg, Twrceg, Sbaeneg neu Maleieg. Dylanwadodd y cefndiroedd ieithyddol hyn ar yr hyn yr oedd teuluoedd yn chwilio amdano mewn lleoliadau gofal plant, yn enwedig o ran cyfathrebu, dealltwriaeth ddiwylliannol a chyfleoedd i blant ddefnyddio neu gynnal eu hieithoedd cartref.

Roedd rhieni'n gyson yn pwysleisio pa mor bwysig oedd hi i'w plant aros mewn cysylltiad â'u hieithoedd brodorol, ac roedd hyn yn llunio eu disgwyliadau o amgylcheddau gofal plant a gwaith chwarae. Roedd rhai teuluoedd yn defnyddio Saesneg yn y cartref ond yn plethu ieithoedd brodorol fel Cambodeg, Cwrdeg neu Arabeg trwy drefn ddyddiol, sgysiau a'r cyfryngau. Roeddent yn gwerthfawrogi lleoliadau gofal plant a oedd yn parchu ac yn cefnogi'r arferion hyn. Roedd un fam, er enghraifft yn defnyddio geiriau Cambodiaidd gyda'i phlant ac roedd hi wrth ei bodd yn eu clywed yn siarad yr iaith wrth siarad â'u mam-gu. Defnyddiodd teulu arall Gwrdeg yn y cartref yn unig, tra bod eraill yn cefnogi dysgu Arabeg trwy ymarfer ysgrifennu strwythuredig, cartwnau ac arferion crefyddol neu ddiwylliannol, yn enwedig yn ystod Ramadan. Pwysleisiodd rhieni fod dod i gysylltiad cynnar â'u hiaith frodorol yn hanfodol, ac roeddynt yn chwilio am ddarparwyr gofal plant a oedd yn deall pam roedd hyn yn bwysig. Roedd enghreifftiau o addasiadau bwriadol i arferion iaith i ategu defnydd iaith mewn gofal plant neu addysg gynnar. Esboniodd rhiant:

“Rydym yn parhau i siarad bron yn gyfan gwbl mewn Cwrdeg—tua 99% o'r amser. Pan fyddaf yn addysgu, rwy'n canolbwyntio ar Saesneg, Cwrdeg ac Arabeg. Os yw'r plant yn cael trafferth, rwy'n cyfieithu i Gwrdeg. Mae'r tair iaith hyn yn ganolog: Saesneg ar gyfer addysg, Cwrdeg ac Arabeg ar gyfer teulu, cyflogaeth ac ymgysylltu yn y dyfodol â chymdeithas. Dydw i ddim yn disgwyl i fy mam ddysgu Saesneg i siarad â fy mhlant, ond rwy'n disgwyl i fy mhlant gynnal Cwrdeg fel y gallant

gyfathrebu â'u neiniau a theidiau a'u cefndryd pan fyddwn yn ymweld â'n gwlad enedigol."

Pwysleisiodd cyfranogwr arall bwysigrwydd cynnal eu hiaith frodorol: "Rydym yn cadw ein hiaith oherwydd nad ydym am ei cholli. Bob dydd Sadwrn rydym yn llogi athro iaith ac yn talu am wersi. Gartref, rydym bob amser yn siarad ein hiaith. Ers symud i Gymru, rydym yn parhau i siarad Dari gyda'n plant." Disgrifiodd rhiant arall ddefnyddio Punjabi gartref: "Rwyf am i'm plant beidio ag anghofio ein diwylliant a pheidio ag anghofio ein crefydd Sikh." Fodd bynnag, dywedodd y rhiant eu bod bellach yn "defnyddio mwy o Saesneg gartref, yn enwedig oherwydd bod fy mhlant yn mynychu'r ysgol yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn dal i wneud ymdrech i siarad Punjabi gyda'r teulu i gadw'r iaith yn fyw." Myfyriodd rhiant arall ar ddefnydd Twrceg ac Arabeg gartref ac eglurodd sut maen nhw weithiau'n siarad Twrceg ac yn gwrando ar ganeuon Twrceg, "Ond mae Arabeg yn bwysicach oherwydd mai dyma ein hiaith frodorol... Rwy'n dweud wrthi y bydd hi'n dysgu Saesneg yn hwyr neu'n hwyrach, ac mae hi eisoes yn ei siarad yn rhugl, ond rhaid iddi ddysgu Arabeg hefyd." Pwysleisiodd y rhiant eu bod yn prynu llyfrau a deunyddiau addysgu Arabeg i'w plant "oherwydd ei bod yn bwysig iawn iddyn nhw ddysgu eu hiaith."

Pwysleisiodd teuluoedd hefyd fod cynnal eu hiaith frodorol yn helpu plant i gyfathrebu â pherthnasau ac aelodau'r gymuned, yn enwedig yn ystod ymweliadau dramor. Roedd eu strategaethau—arferion dyddiol, defnydd o'r cyfryngau, atgyfnerthu'r gymuned—yn dangos ymrwymiad cryf i gynnal iaith. I'r teuluoedd hyn, nid oedd dewisiadau gofal plant a gwaith chwarae yn ymwneud â chymorth ymarferol yn unig ond hefyd â hunaniaeth, perthyn, a sicrhau bod gwreiddiau ieithyddol a diwylliannol eu plant yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.

Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr nad oeddent wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w harferion iaith, naill ai'n defnyddio Saesneg yn y cartref fel yr oeddent erioed wedi'i wneud neu eu bod wedi parhau i ddefnyddio eu hieithoedd brodorol. Parhaodd teuluoedd i flaenoriaethu eu hieithoedd brodorol, gan integreiddio Saesneg yn bennaf ar gyfer addysg a chymdeithas ehangach.

3.4.2 Defnyddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod yn defnyddio lleoliadau gofal plant cyfrwng Saesneg yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf. Roedd defnyddio darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn fwy cyffredin ymhlith rhieni yng Ngwynedd. Dywedodd cyfranogwyr mewn rhai ardaloedd yng Ngwynedd mai'r unig ddarpariaeth oedd ar gael iddynt oedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy Gylchoedd Meithrin neu Ti a Fi Mudiad Meithrin.

Yn gyffredinol, mynegodd rhieni falchder ac anogaeth dros eu plant yn dysgu Cymraeg. Dywedodd rhiant, "maen nhw'n siarad Cymraeg yn yr ysgol ac weithiau gyda fy ffrindiau Cymraeg. Rwy'n falch iawn ohonyn nhw. Hoffwn iddyn nhw ddysgu mwy o Gymraeg oherwydd ei fod yn rhan o'r diwylliant yma a gall fod o fudd i addysg a bywyd cymunedol". Tynnodd rhiant arall sylw at dair-ieithrwydd, gan wneud y sylw bod eu plentyn yn siarad "ein hiaith ni, Cymraeg, a Saesneg."

Nododd rhieni fod darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu amlygiad i'r Gymraeg, yn enwedig drwy'r ysgol a deunyddiau darllen. Roeddent yn fwy ymwybodol o'r Gymraeg ers i blant ddechrau yn y Cylch a'r ysgol, a dod â llyfrau darllen adref. Cysylltodd rhieni ddysgu'r Gymraeg â pharodrwydd i'r ysgol ac integreiddio cymunedol. Dywedodd cyfranogwr nad oedd yn siarad Cymraeg eu bod yn "hapus i'm plant siarad Cymraeg, gan mai dyna'r iaith sydd ei hangen arnyn nhw yn yr ysgol."

Roedd rhai rhieni'n agored i gael mynediad at ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, er nad oeddent yn ei defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer gofal plant. Dywedodd rhiant "Rwyf wedi gweld ychydig o opsiynau cyfrwng Cymraeg gerllaw... Byddwn yn ei ystyried yn y dyfodol gan fy mod yn gwerthfawrogi dysgu dwyieithog." Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhieni'n siarad Cymraeg ond roeddent yn cefnogi darpariaeth ddwyieithog i'w plant lle'r oedd cyfle iddynt ei chael. Gwelwyd y Gymraeg nid yn unig fel pwnc ysgol ond fel rhan o'u diwylliant brodorol a'u hunaniaeth gan nifer o gyfranogwyr. Gall rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hunain deimlo'n gyfyngedig o ran cefnogi dysgu eu plant gartref. Fodd bynnag, gwelwyd darpariaeth ddwyieithog fel ateb, gan ganiatáu i blant ddysgu'r Gymraeg gan y gall wella eu sgiliau iaith a'u gwerthfawrogiad o ddiwylliant lleol.

3.5 Manteision gofal plant a gwaith chwarae

Yn yr ymchwil, siaradodd rhieni am ofal plant a gwaith chwarae nid yn unig fel darpariaeth cefnogaeth ymarferol, ond fel profiadau sy'n llunio dyfodol plant. Roedd llawer yn gobeithio y byddai lleoliadau gofal plant yn cynnig mwy na goruchwyliaeth, gan eu dychmygu fel lleoedd lle gallai plant dyfu mewn annibyniaeth, hyder ac ymwybyddiaeth gymdeithasol. Disgrifiasant amgylcheddau lle mae plant yn dysgu llywio perthnasoedd, mynegi eu hunain ac archwilio'r byd y tu hwnt i'w teuluoedd. Myfyriodd un rhiant ar y trawsnewidiad hwn, gan rannu bod ei phlentyn "wedi dod yn fwy hyderus, wedi datblygu cyfeillgarwch da, ac wedi addasu'n dda i weithgareddau dysgu strwythuredig."

Roedd sawl rhiant yn ystyried addysg gynnar fel carreg gamu hanfodol i fywyd ysgol. Credent fod dysgu yn seiliedig ar feithrinfa a chwarae yn meithrin gwydnwch emosiynol a pharodrwydd academaidd. Fel y dywedodd un rhiant, mae addysg feithrin yn darparu "sylfaen wych ar gyfer dysgu yn yr ysgol a rhyngweithio cymdeithasol," gan helpu plant i fynd i mewn i addysg ffurfiol gyda chwilfrydedd a sicrwydd.

Roedd dimensiwn cymdeithasol gofal plant yn cael ei werthfawrogi'n arbennig. Siaradodd rhieni am y cyfeillgarwch a ffurfiwyd gan eu plant a'r atgofion a greon nhw o fewn amgylchedd diogel a chefnogol. Roedden nhw'n gwerthfawrogi bod gofal plant yn cynnig cyfle i blant dreulio amser i ffwrdd o gartref, dod ar draws gwahanol strwythurau a diwylliannau teuluol, a datblygu'r hyder a'r sgiliau cymdeithasol sy'n dod o gymysgu â chyfoedion. Teimlai llawer y byddai'r cyfeillgarwch cynnar hyn yn dod yn rhan o fyd cymdeithasol hirdymor y plant wrth iddyn nhw dyfu i fyny gyda'i gilydd.

Y tu hwnt i'r manteision i blant, disgrifiodd rhieni ofal plant hefyd fel rhywbeth hanfodol i sefydlogrwydd a lles y teulu cyfan. Nid oedd yn cael ei ystyried yn foethusrwydd, ond yn

rhan hanfodol o fywyd bob dydd—rhywbeth a oedd yn galluogi rhieni i weithio, cynnal arferion, a lleihau straen. Esboniodd un rhiant sut roedd gofal plant yn caniatáu iddyn nhw “gadw [eu] swydd,” tra disgrifiodd un arall y rhyddhad o beidio â gorfod jyglo gwaith a gofalu’n llawn amser mwyach: “straen sut i gymodi gwaith ac ar yr un pryd gofalu am y plentyn... dyma’r straen yr oeddwn yn ei wynebu.” I rai teuluoedd, roedd gofal plant hyd yn oed yn cynnig ymdeimlad o strwythur a pherthyn, gan eu helpu i addasu i fywyd yn y DU. Fel y dywedodd un rhiant, mae defnyddio gofal plant “yn rhoi trefn, disgyblaeth a rheolaeth amser i ni. Bydd y profiad hwn yn ein helpu i wynebu heriau byw yn y DU.”

4. Casgliadau

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n dangos bod cefndiroedd teuluol rhieni ethnig leiafrifol, hanesion mudo, a phrofiadau plentyndod o ofal yn chwarae rhan sylweddol wrth lunio sut maen nhw'n deall ac yn defnyddio gwasanaethau ChDGPC. Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd wedi symud i Gymru ar ryw adeg yn eu bywydau, yn aml am resymau diogelwch, addysg, gwaith, neu deuluol, a disgrifiodd llawer Gymru fel lle cadarnhaol ac amlddiwylliannol i fagu plant. I'r rhai a oedd wedi mudo i Gymru, roedd mudo yn cael ei yrru gan ffactorau amrywiol gan gynnwys statws ffoadur, addysg, cyflogaeth, a chysylltiadau teuluol. Fodd bynnag, roedd profiadau o berthyn i'r gymuned yn amrywio'n fawr. Er bod rhai rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu croesawu ac yn cysylltu a'r cymunedau lle roeddynt yn byw, roedd eraill - yn enwedig ffoaduriaid a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig - yn nodi unigedd, hiliaeth, neu ddiffyg rhwydweithiau lleol. Dylanwadodd y ffactorau hyn nid yn unig ar eu teimlad o ddiogelwch a lles ond hefyd ar eu hymwybyddiaeth o adnoddau cymunedol a'u hyder wrth gael mynediad at ofal plant.

Llywiodd profiadau plentyndod rhieni eu hunain o feithrinfa neu ofal plant eu disgwyliadau a'u penderfyniadau hefyd. I rai, roedd profiadau cynnar cadarnhaol yn atgyfnerthu gwerth addysg gynnar ac yn eu hannog i gofrestru eu plant. I eraill, arweiniodd profiadau cyfyngedig neu negyddol, fel tyfu i fyny mewn cyd-destunau lle'r oedd meithrinfa'n anghyffredin, neu deimlo'n ddi-gefnogaeth fel plentyn, at fwy o betruster neu ddewis am ofal cartref. Cyfrannodd hanesion personol, ynghyd â normau diwylliannol a phrofiadau mudo, at gredoau amrywiol ynghylch beth sy'n gyfystyr â dysgu cynnar a gofal priodol.

Daeth byw mewn ardaloedd trefol â manteision ymarferol. Gallai teuluoedd gerdded i leoliadau gofal plant, ysgolion, a gwasanaethau hanfodol, gan wneud arferion dyddiol yn fwy hylaw. Weithiau, roedd teuluoedd gwledig yn wynebu teithiau hir a chyfleusterau cyfyngedig a oedd yn culhau eu dewisiadau gofal plant. Ar draws Cymru, roedd teuluoedd yn ceisio cysylltiad trwy hobïau, grwpiau cymunedol, a gweithgareddau lleol, a helpodd i adeiladu cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymorth. Ond yn aml, roedd rhieni sy'n aros gartref yn ei chael hi'n anodd creu amser iddyn nhw eu hunain, gan arwain at unigedd a llai o gyfleoedd i ffurfio'r perthnasoedd a allai fel arall gefnogi eu hanghenion gofal plant, a darparu mynediad at wybodaeth am opsiynau gofal plant sydd ar gael iddyn nhw.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod profiadau byw teuluoedd, hunaniaethau diwylliannol, a'r graddau y maent yn teimlo eu bod yn gysylltiedig â'u cymunedau yn dylanwadu'n fawr ar ddefnydd ChDGPC. Mae deall y ffactorau hyn yn hanfodol ar gyfer dylunio darpariaeth gofal plant sy'n hygyrch, yn ddibynadwy, ac yn ymatebol i anghenion amrywiol teuluoedd o gefndir ethnig leiafrifol ledled Cymru.

4.1. Mynediad at ofal plant

Yn yr ymchwil hon, mae profiadau teuluoedd ethnig leiafrifol gyda gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae yn datgelu patrwm cyson o heriau ymarferol, ariannol ac emosiynol sy'n llunio pa mor hyderus a chyson y gallant gael mynediad at gymorth. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n gwybod sut i ddod o hyd i wybodaeth a sut i wneud cais am wasanaethau, gan dynnu ar gymysgedd o ffynonellau ffurfiol a rhwydweithiau cymunedol. Roedd ymwybyddiaeth o

fentrau'r Llywodraeth fel Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn gymysg. Roedd cymhwysedd yn amrywio yn ôl cod post, incwm ac amgylchiadau teuluol, gan adael rhai rhieni'n teimlo eu bod wedi'u heithrio neu wedi'u trin yn annheg. Er bod rhai wedi canfod bod y broses ymgeisio yn syml, roedd eraill yn cael trafferth gyda ffurflenni cymhleth neu dryswch ynghylch pa gynlluniau yr oeddent yn gymwys ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw canllawiau swyddogol bob amser yn glir, ac mae teuluoedd â Saesneg neu lythrennedd cyfyngedig yn dibynnu'n fawr ar bartneriaid, cyfoedion, neu weithwyr cymorth proffesiynol i lywio prosesau gweinyddol. Er nad oedd iaith ei hun yn aml yn rhwystr, dylanwadodd disgwyliadau diwylliannol a phrofiadau negyddol yn y gorffennol ar barodrwydd rhai teuluoedd i ymgysylltu â lleoliadau gofal plant.

Roedd cefnogaeth gan Ymwelwyr Iechyd yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr, ac roedd rhaglenni fel Home-Start yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i deuluoedd sy'n wynebu heriau. Chwaraeodd sefydliadau ffydd rôl hefyd wrth ddarparu cefnogaeth gymunedol a chymdeithasol, er bod eu dibyniaeth ar rwydweithiau presennol weithiau'n cyfyngu mynediad i'r rhai heb gysylltiadau sefydledig.

Roedd adnoddau digidol, gan gynnwys gwefannau awdurdodau lleol a chyfryngau cymdeithasol, yn offer pwysig ar gyfer dod o hyd i wybodaeth. Roedd mannau cyhoeddus fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn cyfoethogi bywyd teuluol trwy gynnig gweithgareddau a chyfleoedd i blant gymdeithasu.

Roedd cost yn rhwystr sylweddol iawn, gyda theuluoedd nad oeddent yn gymwys ar gyfer lleoedd a ariennir yn canfod bod gofal plant yn anfforddiadwy neu "allan o gyrraedd". Cyfyngodd argaeledd cyfyngedig, amseroedd sesiynau anhyblyg, a chyfyngiadau pellter gwledig fynediad ymhellach, yn enwedig i'r rhai heb drafnidiaeth ddibynadwy. Pan nad oedd lleoedd a ariennir gan y llywodraeth ar gael neu'n anaddas, trodd rhai rhieni at ofal plant hunan-ariannu allan o angenrheidrwydd yn hytrach na dewis. Ond disgrifiwyd darpariaeth breifat yn aml fel rhywbeth rhy ddrud, gan effeithio'n anghymesur ar allu rhieni i weithio.

Yn yr astudiaeth, roedd rhieni'n gyson yn blaenoriaethu diogelwch uwchlaw popeth arall. Roedd pryderon ynghylch hylendid, goruchwyliaeth, a gallu eu plentyn i gyfathrebu, yn enwedig i deuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn llywio penderfyniadau ynghylch pryd a pha un a ddylid cofrestru plant. I deuluoedd sy'n agored i niwed, roedd ymddiriedaeth yn y lleoliad a mesurau diogelwch gweladwy yn rhagofynion hanfodol ar gyfer cyfranogiad. I deuluoedd sy'n agored i niwed fel ceiswyr lloches, roedd diogelwch yn hollbwysig. Roeddent yn craffu'n fanwl ar amgylcheddau gofal plant, gan geisio sicrwydd y byddai eu plant yn cael eu hamddiffyn.

Er bod gan lawer o deuluoedd wybodaeth a rhwydweithiau sydd eu hangen i lywio systemau gofal plant, mae rhwystrau parhaus - pwysau ariannol, argaeledd cyfyngedig, pryderon diwylliannol, a phryderon diogelwch - yn parhau i gyfyngu ar fynediad teg. Byddai mynd i'r afael â'r materion hyn trwy ganllawiau cliriach, cefnogaeth sy'n sensitif i ddiwylliant, darpariaeth fforddiadwy, ac arferion diogelwch tryloyw yn cryfhau hyder teuluoedd ac yn sicrhau y gall mwy o blant elwa o wasanaethau blynyddoedd cynnar.

4.2. Profiadau wrth ddefnyddio gofal plant

Roedd patrymau darpariaeth gofal plant yn amrywio ledled Cymru. Lleoliadau cyfrwng Saesneg oedd y rhai a ddefnyddiwyd amlaf gan gyfranogwyr yr ymchwil yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf, tra bod gofal plant cyfrwng Cymraeg yn fwy cyffredin yng Ngwynedd— weithiau'r unig opsiwn oedd ar gael. Roedd llawer o rieni'n ymfalchïo yn eu plant yn dysgu'r Gymraeg, gan ei gweld fel cyswllt ystyrlon â diwylliant, hunaniaeth a bywyd cymunedol lleol.

Defnyddiwyd gwasanaethau gofal plant a chwarae ffurfiol yn helaeth, ac roedd y rhan fwyaf o deuluoedd yn teimlo'n hyderus yn llywio'r wybodaeth a oedd ar gael iddynt. Roeddent yn dibynnu ar gymysgedd o gyngor anffurfiol gan ffrindiau, cymdogion, rhieni eraill, a ffynonellau ffurfiol fel gwefannau awdurdodau lleol, llyfrgelloedd, a hybiau cymunedol. Er bod llawer o rieni yn rheoli'r system yn annibynnol, roedd angen arweiniad ar eraill gan hybiau teuluol neu sefydliadau cymunedol. Roedd gwybodaeth ar lafar a gwybodaeth swyddogol yn gweithio law yn llaw i helpu teuluoedd i ddod o hyd i ofal plant addas.

Roedd gofal plant anffurfiol, perthnasau dibynadwy, rhieni-yng-nghyfraith, a ffrindiau agos, yn gonglfaen i lawer o deuluoedd. Roedd cyfarwyddyd a dealltwriaeth ddiwylliannol a rennir yn gwneud i'r trefniadau hyn deimlo'n ddiogel ac yn ddibynadwy.

Roedd fforddiadwyedd yn rhwystr mawr. Yn aml, roedd teuluoedd nad oeddent yn gymwys ar gyfer lleoedd a ariennir yn canfod bod gofal plant yn rhy ddrud, gan eu gorfodi i ddibynnu ar ofal cartref. I lawer, roedd y gost yn unig yn ddigon i ddiystyru gofal plant ffurfiol yn gyfan gwbl. Ychwanegodd hyblygrwydd cyfyngedig mewn oriau gofal plant haen arall o anhawster, yn enwedig i rieni sy'n gweithio nad oedd eu hamserlenni'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth safonol.

Nid oedd pob rhiant yn yr astudiaeth eisiau neu angen gofal plant ffurfiol. Dewisodd rhai ofalu am eu plant eu hunain, wedi'u harwain gan gredoau diwylliannol, gwerthoedd personol, neu sefyllfa ariannol. Cafodd penderfyniadau rhieni eu llunio gan brofiadau personol a straeon a rannwyd o fewn eu cymunedau. Roedd profiadau negyddol, boed yng Nghymru, rhanbarthau eraill o'r DU neu dramor, yn tanio diffyg ymddiriedaeth, gan annog rhai rhieni i aros nes bod eu plant yn hŷn ac yn gallu mynegi eu profiadau cyn eu cofrestru.

4.3 Iaith

I rai teuluoedd ethnig leiafrifol sy'n ymgysylltu â gofal plant, mae iaith yn rhan graidd o hunaniaeth, perthyn a pharhad diwylliannol. Er bod llawer o deuluoedd yn siarad Saesneg a'u hiaith frodorol, i'r rhan fwyaf o gyfranogwyr, roedd eu defnydd o iaith yn y cartref yn llunio sut roeddent yn llywio systemau gofal plant, yr hyn yr oeddent yn ei werthfawrogi mewn darparwyr a pha mor hyderus neu groesawgar yr oeddent yn teimlo wrth gael mynediad at wasanaethau. Pan oedd gwybodaeth yn aneglur, heb ei chyfieithu na'i chyflwyno gyda sensitifrwydd diwylliannol, gwanhaodd ymddiriedaeth a daeth cyfranogiad mewn gwasanaethau gofal plant yn fwy heriol.

Roedd iaith yn ganolog i hunaniaeth deuluol. Roedd dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn gyffredin, gyda theuluoedd yn plethu Saesneg ac ieithoedd brodorol i fywyd bob dydd. Meithrinwyd ieithoedd brodorol trwy wersi, cyfryngau a rhyngweithiadau teuluol, gan helpu plant i gynnal cysylltiadau â pherthnasau dramor. Er bod y rhan fwyaf o deuluoedd yn parhau ag arferion iaith hirhoedlog, addasodd rhai eu harferion i gefnogi addysg plant trwy gyflwyno mwy o Saesneg gartref. Dangosodd rhieni ymrwymiad dwfn i gynnal eu hieithoedd

brodorol, gan gydnabod pwysigrwydd Saesneg ar gyfer addysg a bywyd bob dydd hefyd. Roedd llawer o deuluoedd yn cyfuno ieithoedd yn weithredol ac yn defnyddio dysgu strwythuredig gartref neu'n dibynnu ar rwydweithiau cymunedol a theuluol i gadw treftadaeth ieithyddol yn fyw. Felly roedd eu dewisiadau gofal plant wedi'u cysylltu'n agos ag a oedd lleoliadau'n parchu'r blaenoriaethau hyn ac yn cefnogi datblygiad amlieithog.

Ychwanegodd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog haen arall. Er bod y rhan fwyaf o deuluoedd yn defnyddio gofal plant cyfrwng Saesneg, mynegodd llawer falchder yn eu plant yn dysgu'r Gymraeg ac yn ei gweld fel llwybr at integreiddio diwylliannol, parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chyfleoedd ehangach. Roedd hyd yn oed rhieni nad oeddent yn siarad Cymraeg eu hunain yn gwerthfawrogi dwyieithrwydd, er bod rhai'n teimlo'n gyfyngedig o ran faint y gallent ei gefnogi gartref.

4.4 Manteision gofal plant a gwaith chwarae

Siaradodd rhieni am ofal plant a gwaith chwarae nid yn unig fel darparu cefnogaeth ymarferol, ond fel profiadau sy'n llunio dyfodol plant. Roedd llawer yn gobeithio y byddai lleoliadau gofal plant yn cynnig mwy na goruchwyliaeth, gan eu dychmygu fel lleoedd lle gallai plant dyfu mewn annibyniaeth, hyder ac ymwybyddiaeth gymdeithasol. Disgrifiasant amgylcheddau lle mae plant yn dysgu llywio perthnasoedd, mynegi eu hunain ac archwilio'r byd y tu hwnt i'w teuluoedd. I sawl rhiant, ystyriwyd addysg gynnar fel carreg gamu hanfodol i fywyd ysgol. Credent fod dysgu meithrin a chwarae yn meithrin gwydnwch emosiynol a pharodrwydd academiaidd.

Roedd dimensiwn cymdeithasol gofal plant yn cael ei werthfawrogi'n arbennig. Siaradodd rhieni am y cyfeillgarwch a ffurfiwyd gan eu plant a'r atgofion a greasant mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Roeddent yn gwerthfawrogi bod gofal plant yn cynnig cyfle i blant dreulio amser i ffwrdd o gartref, dod ar draws gwahanol strwythurau a diwylliannau teuluol, a datblygu'r hyder a'r sgiliau cymdeithasol sy'n dod o gymysgu â chyfoedion. Teimlai llawer y byddai'r cyfeillgarwch cynnar hyn yn dod yn rhan o fyd cymdeithasol hirdymor y plant wrth iddynt dyfu i fyny gyda'i gilydd.

Daeth bwlch sylweddol i'r amlwg o amgylch gofal plant ar ôl ysgol a gwasanaethau chwarae i blant oedran ysgol; byddai rhaglenni fforddiadwy neu am ddim yn cefnogi rhieni sy'n gweithio'n fawr. Y tu hwnt i'r manteision i blant, disgrifiodd rhieni ofal plant fel rhywbeth hanfodol i sefydlogrwydd a lles y teulu cyfan. Nid oedd yn cael ei ystyried yn foethusrwydd, ond yn rhan hanfodol o fywyd bob dydd—rhywbeth a oedd yn galluogi rhieni i weithio, cynnal arferion, a lleihau straen. Roedd gofal plant hyd yn oed yn cynnig ymdeimlad o strwythur a pherthyn, gan eu helpu i addasu i fywyd yn y DU.

5. Argymhellion

5.1 Sicrhau gwybodaeth glir, hygrych, a pherthnasol yn ddiwylliannol

Weithiau mae teuluoedd ethnig leiafrifol yn dod ar draws systemau anghyfarwydd a rhwystrau iaith wrth ddeall sut i gael mynediad at wasanaethau. Gellid mynd i'r afael â rhai o'r anawsterau hyn drwy Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol:

- darparu canllawiau syml, amlieithog yn egluro cymhwysedd gofal plant ac opsiynau a ariennir, gan ddefnyddio fformatau hawdd eu darllen a ffurflenni cais symlach
- dallai symleiddio'r iaith mewn ffurflenni cais ar gyfer darpariaeth gofal plant leihau dibyniaeth rhieni ar gymorth allanol i lenwi ffurflenni
- safoni gwybodaeth gofal plant ledled Cymru fel bod teuluoedd yn derbyn negeseuon cyson waeth ble maen nhw'n byw
- rhannu gwybodaeth drwy fannau cymunedol dibynadwy, llyfrgelloedd, hybiau cymunedol, meddygfeydd teulu, ysgolion, canolfannau ffydd, a chyfryngau cymdeithasol, gan gydnabod nad yw pob teulu'n ymgysylltu â sianeli ffurfiol na gwefannau awdurdodau lleol

5.2. Meithrin ymddiriedaeth drwy dryloywder diogelu a chyfathrebu cryf

Efallai bod rhai teuluoedd ethnig leiafrifol, gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, wedi cael profiadau negyddol gyda sefydliadau neu efallai nad ydynt yn gyfarwydd â systemau diogelu'r DU. Gallai dulliau posibl i helpu teuluoedd gynnwys Awdurdodau Lleol:

- annog darparwyr gofal plant i rannu polisïau diogelu clir a mecanweithiau adborth mewn fformatau hygrych
- cynnig sesiynau ymgartrefu, diwrnodau agored, a chyfleoedd i rieni arsylwi'r amgylchedd, gan helpu teuluoedd i deimlo'n hyderus ynghylch diogelwch ac arferion staff
- darparu diweddariadau rheolaidd am drefn, dysgu a lles plant trwy luniau, apiau, neu sgysiau byr — yn arbennig o werthfawr i rieni sydd â Saesneg neu Gymraeg cyfyngedig

5.3. Ehangu gofal plant hyblyg a fforddiadwy sy'n diwallu anghenion gweithwyr amrywiol

Mae teuluoedd ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o weithio mewn swyddi sifftiau, â chyflog isel, neu swyddi anrhagweladwy, gan wneud hyblygrwydd gofal plant yn broblem sylweddol. Er mwyn helpu teuluoedd yn y sefyllfaoedd hyn, gallai camau ymarferol a gymerir gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol gynnwys:

- cynyddu cyllid ar gyfer gofal plant y tu allan i oriau safonol — boreau cynnar, gyda'r nos, a phenwythnosau

- hyrwyddo clybiau a gwasanaethau chwarae ar ôl ysgol fforddiadwy neu am ddim, a all fod yn hanfodol i deuluoedd ag adnoddau ariannol cyfyngedig
- annog lleoliadau i gynnis sesiynau rhan-amser, oriau estynedig, neu becynnau addasadwy ar gyfer anghenion gofal plant afreolaidd
- cefnogi partneriaethau rhwng ysgolion, grwpiau cymunedol, a darparwyr gofal plant i ehangu'r ddarpariaeth mewn ardaloedd â phoblogaethau ethnig leiafrifol uchel, megis gweithdai ar lywio'r system addysg, a sefydlu grwpiau cynghori rhieni sy'n cynrychioli gwahanol gymunedau ethnig

5.4. Hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cynhwysiant, ac amlieithrwydd mewn lleoliadau gofal plant

Mae teuluoedd ethnig leiafrifol yn elwa pan fydd amgylcheddau gofal plant yn adlewyrchu ac yn parchu eu hunaniaethau, eu hieithoedd, a'u harferion diwylliannol. Gellir cefnogi hyn trwy gamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol megis:

- darparu hyfforddiant staff mewn ymwybyddiaeth ddiwylliannol, arfer gwrth-hiliol, a chyfathrebu cynhwysol
- dathlu amrywiaeth ddiwylliannol trwy lyfrau, gweithgareddau, bwyd, a digwyddiadau sy'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir
- defnyddio cymhorthion gweledol, deunyddiau wedi'u cyfieithu, ac arwyddion clir i gefnogi teuluoedd â Saesneg neu Gymraeg cyfyngedig
- hyrwyddo manteision addysg ddwyieithog ac amlieithog, gan gydnabod gwerth ieithoedd y cartref
- cynnig sicrwydd ychwanegol a chymorth wedi'i deilwra i deuluoedd sydd â phrofiadau gofal plant negyddol yn y gorffennol neu'r rhai o gefndiroedd agored i niwed

5.5 Cryfhau cysylltiadau cymunedol a rhwydweithiau cymorth dibynadwy

Mae teuluoedd ethnig leiafrifol yn aml yn dibynnu ar rwydweithiau anffurfiol — perthnasau, grwpiau ffydd, sefydliadau cymunedol — am gyngor gofal plant a chefnogaeth emosiynol. Mae dulliau posibl i ddatblygu hyn yn cynnwys Awdurdodau Lleol yn:

- gweithio gyda sefydliadau cymunedol dibynadwy, grwpiau ffydd, a grwpiau fel Home Start i gyrraedd teuluoedd nad ydynt efallai'n ymgysylltu â gwasanaethau ffurfiol
- darparu gweithgareddau hyblyg, ymrwymiad isel i rieni sy'n aros gartref i leihau unigedd a meithrin hyder
- annog lleoliadau gofal plant i gynnal cyfarfodydd rhieni-darparwyr, sesiynau treial, a diwrnodau agored sy'n teimlo'n groesawgar i deuluoedd o gefndiroedd amrywiol

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys Cwllwm ac awdurdodau lleol, i archwilio sut y gellir bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu strwythurau, cyfrifoldebau ac ystyriaethau adnoddau presennol ar draws y sector gofal plant a gwaith chwarae.

Cyfeirnodau

Abella, A.L.D., Hordge-Freeman, E., Conner, K., Armstrong, L., Wilson, R. a Landers, M (2024), '[Parent and Staff Insights to Understanding Challenges with Engaging Black Families in Early Childhood Programs](#)', Journal of Child and Family Studies, Cyfrol 33, tudalennau 2596 i 2613

Arday, J (2021), 'Improving Race Equality in Education', Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Bashir, N (2023), '[Community Gatekeepers: Power, Pitfalls and Possibilities When Recruiting and Researching Black, Asian, and Minority Ethnic \(BAME\) Participants](#)' The Qualitative Report, Cyfrol 28, Rhifyn 5, tudalennau 1501 to 1509

Brentnall, J (2017), 'Promoting engagement and academic achievement for Black and mixed-ethnicity pupils in Wales', Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Burns, S., Davidson, A., White, L., Hampton, D., a Perlman, M (2025), '[Information effects on parental choices for early childhood education and care](#)'. Behavioural Public Policy, Cyfrol 9, Rhifyn 1, tudalennau 132 i 154

Centre for Social Justice (2020), '[Facing the Facts: Ethnicity and Disadvantage in Britain: Disparities in education, work and family](#)'

Copland, F., a Creese, A (2015), '[Linguistic Ethnography](#)', London: Sage Publications

Coram BAAF (d.d.), '[Practice Note 18: Recruiting Black Families](#)'

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2023), '[Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach?](#)'

Farooqi, A., Jutlla, K., Raghavan R., Andrew Wilson, A., Shams Uddin, M., Carol Akroyd, C., Patel, N., Campbell-Morris, P., a Tasneem Farooqi, A (2022), '[Developing a toolkit for increasing the participation of black, Asian and minority ethnic communities in health and social care research](#)'

Gildea, A., Lord P., & Bradley, C (2023), '[Supporting parents in children's early learning: families connect evaluation and impact results](#)', Belfast: Queens University Belfast

Hughes, B. a Jones, K (2021), '[Astudiaeth ansoddol o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy'n effeithio penderfyniadau rhieni o ran gofal plant ac addysg gynnar](#)', Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Javed M., Sprecher E.A., Carter B., Elhassan L., Hiller R., Holmes L., Park J., Robinson, C., Selwyn J., Shelton K.H., and Siraj, I (2025), '[A systematic review of ethnic representation in UK research involving children and young people living in care](#)', The British Journal of Social Work, Cyfrol 55, Rhifyn 6, Tudalennau 2676 i 2695.

Ladegaard, H. J (2018), '[Codeswitching and emotional alignment: Talking about abuse in domestic migrant-worker returnee narratives](#)', Language in Society, Cyfrol 47, Rhifyn 5, Tudalennau 693 i 714

Lord, P., Rennie, C., Smith, R., Gildea, A., Tang, S., Miani, G., Styles, B. a Bradley, C (2020), 'Randomised Controlled Trial Evaluation of Families Connect', NFER, Slough, ar gael arlein yn [Families Connect - Learning Together | Save the Children UK](#)

Llywodraeth Cymru (2022), [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: disgwyliadau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a Gofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol](#)

Llywodraeth Cymru (2024a), [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad 2024](#)

Llywodraeth Cymru (2024b), [Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar](#)

Matos, L., Indart, M. J., Park, C. L., a Leal, I (2023), '["I'm Going to Tell You Something I Never Told Anyone": Ethics- and Trauma-Informed Challenges of Implementing a Research Protocol with Syrian Refugees](#)', International Journal of Environmental Research and Public Health, Cyfrol 20, Rhifyn 2, Tudalen 1261

McCoy, D. C., Yoshikawa, H., Ziol-Guest, K. M., Duncan, G. J., Schindler, H. S., Magnuson, K., Yang, R., Koepp, A., a Shonkoff, J. P (2017), '[Impacts of Early Childhood Education on Medium- and Long-Term Educational Outcomes](#)', Educational Researcher, Cyfrol 46, Rhifyn 8, Tudalennau 474 i 487

Mendizabal-Espinosa, R., Bonhote, K., Ko Sum Yue, J., and Dickson, K (2024), '[Increasing Access to Childcare for Ethnic Minority and Disadvantaged Communities](#)', UCL Institute of Education: London

National Foundation for Education Research (2024), '[Ethnic diversity in the teaching workforce: evidence review](#)'

NIHR CLAHRC East Midlands Centre for Ethnic Health Research (2023), '[Toolkit for: Increasing Participation of Ethnic Minority Groups in Health and Social Care Research](#)'

Ortigosa-Beltrán, I., Jaén, I., & García-Palacios, A (2023), '[Processing negative autobiographical memories in a foreign language](#)', Frontiers in Psychology, Cyfrol 14

Palá, A., Hill-Dixon, A., and Macikene, U (2024), '[How Policy Can Increase Access to Early Years Childcare Support for Ethnic Minority Families](#)', International Public Policy Observatory

Parker, C., Scott, S., and Geddes, A (2019), '[Snowball Sampling](#)', SAGE Research Methods Foundations

YMUNWCH Â'N ASUDIAETH YMCHWIL NI!



Ydych chi'n rhiant neu'n ofalwr Du, Asiaidd neu o leiafrif ethnig?

Ydych chi'n byw yng Nghaerdydd, Gwynedd neu Rhondda Cynon Taf?

Rydym am glywed am eich profiadau o gael mynediad at wasanaethau gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru.

Pwy ydym ni?

Rydym yn dîm o ymchwilyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrif ethnig, gyda chefnogaeth mentoriaid cymunedol Llywodraeth Cymru ac ymchwilyr eraill.

Beth mae'n ei olygu?

Sgwrs gyfeillgar neu drafodaeth grŵp bach.

Tua 45-60 munud o hyd.

Ar-lein/dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Bydd eich hunaniaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

Pam cymryd rhan?

Rhannwch eich barn i helpu i wella gwasanaethau gofal plant i deuluoedd.

Helpwch ni i lunio Adroddiad Llywodraeth Cymru.

Â diddordeb?

Cysylltwch â: **post@iaith.cymru**



Canllaw Cyfweiliad

Safbwyntiau a Phrofiadau Teuluoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru: Astudiaeth Ansoddol ar Ddefnyddio Gwasanaethau Gofal Plant a Gwaith Chwarae

Dyddiad:

Cyfwelydd:

Cod y cyfranogwr

Oedran y Plentyn

Canllaw Cyfweiliad Unigolion

Helo, fy enw i yw X.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu IAITH i gynnal astudiaeth i helpu deall sut mae profiadau bywyd, diwylliant ac anghenion teuluol yn dylanwadu ar sut mae pobl yn defnyddio gwasanaethau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar (ChDGPC). Mae Llywodraeth Cymru eisiau gweithio gyda rhieni a gofalwyr o Gymunedau Du, Asiaidd a Ethnig leiafrifol, i wella mynediad at leoliadau gofal plant a chwarae yn ogystal â mynediad at gyfleoedd chwarae. Bydd y mewnwleidiad o'r gwaith hwn yn helpu i gefnogi polisïau mwy cynhwysol yn y dyfodol.

Diolch i chi am gytuno i siarad â mi. Hoffwn siarad â chi fel rhan o'n hymchwiliad i wasanaethau gofal plant a chwarae.

Hoffwn i'r sesiwn fod yn eithaf anffurfiol, ond byddaf yn gofyn cyfres o gwestiynau am eich barn a'ch profiadau o ofal plant fel bod gwasanaethau'r dyfodol yn diwallu anghenion pob teulu'n well. Byddaf yn nodi (a/neu'n recordio) eich ymatebion yn ystod ein sgwrs ac wedi hynny felly peidiwch â gadael i hynny eich tynnu sylw. Byddwn yn gwirio gyda chi fod eich barn wedi'i nodi'n gywir. Ydy hynny'n iawn?

Mae eich cyfranogiad heddiw yn wirfoddol, ac mae croeso i chi dynnu'n ôl o'r ymchwiliad ar unrhyw adeg (gan gynnwys oedi neu adael y cyfweiliad ar unrhyw adeg). Cymerwch gymaint o amser ag sydd ei angen arnoch i feddwl am y cwestiynau cyn i chi ddechrau eu hateb. Os oes unrhyw gwestiynau nad ydych am eu hateb, nid oes rhaid i chi, a gallwn neidio i'r cwestiwn nesaf.

Bydd eich cyfranogiad yn gyfrinachol, sy'n golygu na fydd eich gwybodaeth bersonol a'ch ymateb llawn o'n trafodaethau yn cael ei rhannu â Llywodraeth Cymru. Ni fydd unrhyw ran o'ch gwybodaeth bersonol yn ymddangos ar unrhyw ddeunydd a gyhoeddir. Os byddwn yn dewis dyfynnu rhai o'ch geiriau'n uniongyrchol neu gyfeirio at unrhyw enghreifftiau a grybwyllir gennych, ni fyddwn yn defnyddio'ch enw go iawn a byddwn yn hepgor unrhyw wybodaeth a allai arwain at eich adnabod.

Fe wnaethom ni rannu Hysbysiad Preifatrwydd a Ffurflen Gyfranogiad gyda chi cyn y cyfweiliad hwn a oedd yn egluro pwrpas yr ymchwil hwn a sut y byddwn ni yn defnyddio'r wybodaeth a rennir gennych gyda ni heddiw. Cyn i ni ddechrau, a hoffech chi i mi ailadrodd unrhyw beth, neu oes gennych chi unrhyw gwestiynau?

Ffocws Ynchwil	Cwestiynau 'Aide memoire'
Bywyd teuluol/cefndir/ ardal	Cwestiynau i bob cyfranogwr: 1. Allwch chi ddweud ychydig wrthym amdanoch chi'ch hun? 2. Beth yw eich hobïau? 3. Allwch chi ddweud ychydig am y gymdogaeth a'r gymuned lle rydych chi'n byw a/neu'ch profiad o fyw yng Nghymru? Awgrymiadau dilynol: 4. Sut fyddech chi'n disgrifio'ch ardal leol? Ydych chi wedi byw yno'n hir? O ble ydych chi wedi symud (os yn berthnasol)? Beth ydych chi'n ei hoffi neu ddim yn ei hoffi amdani? 5. Sut ydych chi'n cyrraedd siopau, gwasanaethau neu drafnidiaeth gyhoeddus? 6. Ydych chi'n teimlo'n rhan o'r gymuned leol? Ym mha ffordd? 7. Ydych chi'n defnyddio gofal plant ffurfiol neu wasanaethau chwarae? (Gan ofal plant ffurfiol rydym yn golygu meithrinfeydd, lleoliadau gofal dydd neu warchodwyr plant). Os na, ewch ymlaen i gwestiwn 12. 8. Pa fath(au) o ofal plant ffurfiol ydych chi'n eu defnyddio, a pha mor aml? 9. Sut y daethoch chi i wybod am y gwasanaeth hwn? 10. Pa iaith(ieithoedd) a ddefnyddir yn y lleoliad?

	11. Sut brofiad fu hyn— positif, negyddol, neu gymysg? A yw unrhyw un o'ch ffrindiau neu aelodau'r teulu wedi defnyddio'r un gwasanaethau gofal plant neu chwarae? 12. A oes unrhyw rwystrau sy'n ei gwneud hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau gofal plant neu chwarae ffurfiol? A yw'r gwasanaeth gofal plant neu chwarae ffurfiol yn lleol ac yn hawdd ei gyrraedd? Cyd-destun: Hoffem ddeall a yw rhieni neu warcheidwaid yn gwybod sut i wneud cais am le mewn Addysg Feithrin – er enghraifft, dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion neu ddarpariaeth gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn deall nad yw pawb yn ymwybodol ar hyn o bryd, neu efallai nad yw'r wybodaeth bob amser yn glir. Cwestiynau: 13. Ydych chi'n gwybod sut i wneud cais am le mewn Addysg Feithrin yn eich ysgol/meithrinfa leol? 14. Ydych chi erioed wedi ceisio gwneud cais am le mewn addysg feithrin neu ysgol i blentyn 3 neu 4 oed? Cwestiynau i'r rhai sydd â phlant 2-3 neu 3-4 oed 15. A ydych chi'n ymwybodol bod elfen gofal plant rhaglen Dechrau'n Deg, sef 12.5 awr yr wythnos, ar gael i rai plant dwy oed ledled Cymru? A fyddai hyn yn rhywbeth y byddech chi'n awyddus i'w ddefnyddio os ydych chi'n gymwys? Neu'n dysgu mwy amdano? 16. A ydych chi'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn ariannu o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg Feithrin i blant 3-4 oed? A fyddai hyn yn rhywbeth y byddech chi'n awyddus i'w ddefnyddio? Neu'n dysgu mwy amdano? 17. A ydych chi'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn ariannu hyd at 20 awr ychwanegol o ofal plant i deuluoedd cymwys yng Nghymru o dan y Cynnig Gofal Plant i Gymru? A fyddai hyn yn rhywbeth y byddech chi'n awyddus i'w ddefnyddio os ydych chi'n gymwys? Neu'n dysgu mwy amdano? I'r rhai sydd â phlant rhwng 3 a 4 oed ac sy'n gymwys ar gyfer y cynnig Gofal Plant i Gymru. 18. A ydych chi'n gwybod sut i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant i Gymru?
--	--

Gwybodaeth gyffredinol am wasanaethau Gofal Plant a Gwaith Chwarae	Cwestiynau i bob cyfranogwr 19. Pa mor bwysig ydych chi'n meddwl yw gofal plant ffurfiol mewn lleoliad gofal plant i blant 0-8 oed? Pam? 20. Ble fydddech chi'n chwilio am wybodaeth neu gymorth i wneud cais am le mewn addysg blynyddoedd cynnar? 21. Os ydych chi wedi chwilio am wybodaeth, a oedd y broses yn glir neu'n ddryslyd? 22. A wnaeth rhywun eich helpu chi — er enghraifft, aelod o'r teulu, ffrind, ymwelydd iechyd, gweithiwr cymorth? 23. Beth ydych chi'n ei wybod am hawl eich plentyn i le mewn meithrinfa neu ysgol (os yn berthnasol) 24. Ydych chi wedi dewis peidio â gwneud cais am le Addysg Feithrin eto? Os felly, pam? (os yn berthnasol). Cwestiynau i'r rhai nad ydynt wedi defnyddio gofal plant ffurfiol hyd yn hyn: 25. Beth ydych chi'n ei wybod am hawl eich plentyn i le mewn meithrinfa neu ysgol (os yn berthnasol). 26. Ydych chi wedi ystyried defnyddio gofal plant ffurfiol h.y. meithrinfa ddydd, gwarchodwr plant, lleoliadau chwarae. 27. Os penderfynoch chi beidio â defnyddio gofal plant, a fydddech chi'n hapus i ddweud pam? Os penderfynoch chi beidio â defnyddio Addysg Feithrin, a fydddech chi'n hapus i ddweud pam? 28. Os nad ydych chi'n defnyddio gofal plant a ariennir na gwaith chwarae, ydych chi wedi defnyddio unrhyw fathau eraill o ofal plant, fel rhai preifat? Pam wnaethoch chi benderfynu ar hyn?
Gofal plant anffurfiol	29. Ydych chi'n defnyddio gofal plant anffurfiol a ddarperir gan deulu neu ffrindiau? 30. Pwy sy'n eich helpu i ofalu am eich plentyn/plant, a pha mor aml? 31. Gyda beth maen nhw fel arfer yn helpu—e.e. casglu plant o'r ysgol, gyda'r nos, penwythnosau? 32. Pa mor bwysig yw'r gefnogaeth honno i chi? 33. Allwch chi ddweud wrthym am unrhyw wasanaethau neu sefydliadau lleol sy'n cefnogi teuluoedd â phlant ifanc yn eich ardal? Pethau fel canolfannau

	cymunedol, grwpiau a chefnogaeth rhianta, cyngor gofal plant, grwpiau iaith, ymwelwyr ieched, grwpiau chwarae, Dechrau'n Deg, ac ati. 34. Ydych chi'n defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau hyn? <i>Os ydych chi:</i> Pa rai ydych chi'n eu defnyddio, a pha mor aml? Sut y daethoch chi i wybod amdanynt? <i>Os nad ydych chi:</i> A oes rheswm pam nad ydych chi'n eu defnyddio — er enghraifft, diffyg amser, gwybodaeth, trafnidiaeth, neu ryw beth arall? 35. Sut y clywsoch chi gyntaf am y gwasanaethau hyn? Awgrym: Teulu / Ymwelydd ieched / ysgol / rhieni eraill / ar-lein / cyfryngau cymdeithasol / cyngor lleol / Meddyg Teulu 36. Beth a helpodd chi i benderfynu a ddylech chi ddefnyddio gwasanaeth penodol ai peidio? Awgrym: Ai awgrymiadau gan eraill oedden nhw? Pellter neu gost? Iaith a ddefnyddir? Amgylchedd croesawgar?
Teimladau am ddefnyddio gwasanaethau	37. A oes unrhyw resymau pam y gallai rhai rhieni fod yn ansicr neu'n poeni ynghylch defnyddio gwasanaethau gofal plant a chwarae? Awgrym: Gallai fod yn bethau ymarferol, rhesymau diwylliannol, profiadau yn y gorffennol. 38. Pwy neu beth sydd wedi eich helpu i wneud penderfyniadau am addysg feithrin neu ofal plant — os o gwbl? Awgrym: Adnabod y staff? Siarad eich iaith? Ymweld ymlaen llaw? 39. A aethoch chi i addysg feithrin neu ofal plant ffurfiol eich hun pan oeddech chi'n blentyn? Ydych chi'n meddwl bod hynny'n dylanwadu ar sut rydych chi'n teimlo amdano nawr? 40. A oes unrhyw beth a fyddai'n eich helpu i ddefnyddio gwasanaethau gofal plant a chwarae?
Iaith	41. Pa ieithoedd ydych chi'n eu defnyddio gartref a gyda phwy? (Awgrymiadau dilynol; A oes aelodau eraill o'r teulu (fel neiniau a theidiau) sy'n siarad gwahanol ieithoedd gartref? Pam mae'n bwysig i chi ddefnyddio iaith X gartref?) 42. A yw eich arferion iaith gartref wedi newid dros amser—er enghraifft ers symud i Gymru neu ers i'ch plentyn gael ei eni? 43. A oes unrhyw un o'ch plant yn siarad Cymraeg? A hoffech chi iddyn nhw ddysgu Cymraeg?

	44. A oes gan yr iaith a ddefnyddir mewn lleoliadau gofal plant neu wasanaethau chwarae lleol unrhyw ran yn y ffordd y mae teuluoedd yn gwneud penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau i'w defnyddio? Awgrymiadau dilynol (os yn berthnasol): Ydych chi'n gwybod pa ieithoedd a ddefnyddir yn y gwasanaethau yn eich ardal chi? Ydych chi wedi meddwl am ba ieithoedd hoffech chi i'ch plentyn gael eu hamlygu iddynt yn yr oedran hwn? A fyddai'n gwneud gwahaniaeth i chi pe bai'r lleoliad yn defnyddio mwy nag un iaith, neu'ch iaith chi a ddefnyddir gartref? 46. Ydych chi wedi dod ar draws addysg feithrin neu ofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn eich ardal? Ydych chi wedi ystyried gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer eich plentyn? Pam neu pam lai? Awgrymiadau: Ydych chi'n gwybod sut i ddod o hyd i leoliadau addysg feithrin/gofal plant/chwarae cyfrwng Cymraeg yn eich ardal? Hoffech chi i'ch plentyn siarad Cymraeg? Pam neu pam ddim?
Effaith hir dymor gofal plant	Cwestiynau i gyfranogwyr sydd wedi defnyddio addysg feithrin, gofal plant ffurfiol a gwasanaethau chwarae. 47. Beth oedd eich gobeithion neu ddisgwyliadau cyn defnyddio a. gwasanaethau gofal plant ffurfiol a gwasanaethau chwarae? b. Addysg feithrin? 48. A oedd yn bodloni'r disgwyliadau hynny? Ym mha ffyrdd y gweithiodd yn dda — neu beidio — i chi a'ch plentyn? 49. Am ba hyd y gwnaethoch chi ddefnyddio gwasanaethau gofal plant ffurfiol a gwasanaethau chwarae? 50. Am ba hyd y gwnaethoch chi ddefnyddio Addysg Feithrin? Beth ddylanwadodd ar pryd neu pam y gwnaethoch chi roi'r gorau iddi (e.e. dechrau yn yr ysgol, newid mewn trefn arferol)? 51. A fydddech chi'n ystyried defnyddio gwasanaethau gofal plant ffurfiol a gwasanaethau chwarae eto? Pam neu pam lai? 52. A fydddech chi'n ystyried defnyddio addysg Feithrin eto? Pam neu pam lai? 53. A wnaethoch chi a'ch plentyn(plant) deimlo'n groesawgar gan y lleoliad wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal plant a chwarae ffurfiol?

	54. A wnaethoch chi a'ch plentyn(plant) deimlo'n groesawgar gan y lleoliad wrth ddefnyddio addysg feithrin? 55. A yw defnyddio gofal plant neu addysg feithrin wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'ch plentyn neu'ch teulu? Ym mha ffordd? 56. A yw wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'ch bywyd bob dydd eich hun? Ym mha ffordd? 57. A ydych chi'n gweld unrhyw fanteision, heriau yn y tymor hir — i'ch plentyn neu'ch teulu?
--	--